YR YMOFYNYDD.

Rhif 60.] AWST, 1852. [Cyf. V.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

Mewn Cyhoeddiad a broffesa fod yn RHYDD ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."—Gol.

YR YMWELIAD ODDIWRTH "Y GYMDEITHAS UNDODAIDD ORLLEWINOL."

Hyd yn ddiweddar yr oedd amryw rwystrau heb law yr Iaith Gymraeg, yn ein cadw ni y Cymry ar wahân oddiwrth ein brodyr y Saeson. Ymddengys fod Reilffordd y Deheudir eisioes, i ryw fesur, wedi tori i lawr fur y gwahaniaeth. A thebygem nad oes un amheuaeth fod nifer mawr o Undodiaid Cymru yn bresenol, yn nhrefydd Morganwg yn enwedig, naill ai yn Saeson genedigol neu trwy ddygiad i fynu, neu ynte eu bod, er mwyn amcanion crefydd, yn arferyd y Saesneg yn hytrach na'r Gymraeg. Nid y'm ni yn awr yn myned i ymofyn i'r achos neu'r canlyniadau o hyn; eithr yn unig i nodi y ffaith.

Am yr achos a'r canlyniadau, caniataer i ni roddi ein golygiadau maes o law. Y mae "Cymru a Chymraeg" yn eu perthynas â'r peth mewn llaw, yn destun rhy bwysig i'w drafod o fewn ein terfynau cyfyngedig ar hyn o bryd. Ond y mae yn ymddangos i ni fod rhyw ychydig sylwadau ar y pen yn ofynedig, gyda chofnodi yr amgylchiad. Nid oes neb ond yr annoeth na chymer sylw o arwyddion yr amserau.

Cynnaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas uchod *(The Western Unitarian Society)*, am y tro cyntaf i'r Dywysogaeth, yn Abertawe, dydd Mercher, Gorphenaf yr 21ain. Darllenwyd y llithiau, arferedig er ys rhai blynyddau gan eglwys Abertawe, gan y gweinidog, y Parch. G. B. Brock. Canwyd *(chantwyd)* rhai o Salmau Dafydd, yn ôl y drefn brif-eglwysig, mae'n debyg. A chanwyd anthem allan o'r Proffwyd Esaiah gan y Côr gyda'r *Organ*. Tebyg fod amrywiaeth barn ymhlith y gwyddfodolion parth y *chanto* a'r llithiau hefyd feallai. Pa fodd bynag, y Pregethwr oedd y Parch. Thomas Madge, o *Essex Street, Llundain*, teilwng olyniedydd i Belsham a Lindsey; a thestun ei bregeth ragorol oedd yr athrawiaeth

ogoneddus o Undod Duw. Ac yr y'm yn sicr y bydd eraill a'i clywsant yn barod i gyd-uno â ni pan y dywedwn, nas clywsom ac nas darllenasom mo'i gwell na'i chystal erioed ar y pwngc pwysig. Y mae genym gryn obaith y cyhoeddir y Bregeth ar fyr. Ac os felly, ac os byw fyddwn ni a'r *Ymofynydd*, caiff ein darllenwyr ei gweled neu glywed rhagor am dani.

Mor belled ag yr oeddem ni yn canfod, nid oedd nemawr o weinidogion ac aelodau'r Gymdeithas o Loegr yn bresenol. Y tro nesaf, gobeithio, y cawn bresenoldeb mwy o'n brodyr o Gaerloyw, Dyfnaint a Gwlad yr Hâf.

Yr oedd modd bynag gynnulleidfa luosog a pharchus, wedi ymgynnull i'r lle o'r dref a'r gymydogaeth, ynghyd âg amryw gyfeillion o Ferthyr a'r Cefn, Castell Nedd, Penybont a Llanelly.

Ar ôl ciniaw (am 2 o'r gloch) yn yr *Assembly Rooms*, trafodwyd achosion arferol y Gymdeithas; Walter Coffin Ysw. A. S. dros Caerdydd, yn y Gadair. Areithiodd y Cadeirydd anrhydeddus ac amryw eraill o blaid y gymdeithas—derbyniwyd 50 o enwau newydd yn aelodau—a chytunwyd fod y Cyfarfod Blynyddol nesaf i fod yn Ilminster yn Ngwlad yr Hâf. Yn y prydnawn pregethodd y Parch W. James o Fristol.

Y mae'r Gymdeithas Orllewinol, wedi bod mewn bodoliaeth er ys mwy na thri-ugain mlynedd. Amcan ei ffurfiad ydoedd, taenu gwybodaeth Ysgrythyrol—o Undodiaeth yn enwedig—trwy gyhoeddi llyfrau. Ac y mae yn ddiau wedi bod ac yn parhâu i fod o fuddioldeb mawr yn y dalaith lle y mae wedi bod mewn gweithrediad. I weled hyn nid oes eisiau rhagor, tebygid, na darllen y cofrestri blynyddol *(catalogues)* o lyfrau'r Gymdeithas, sydd wedi eu cyhoeddi o bryd bwy gilydd. Y maent yn cynnwys amryw-iaeth dewisedig o lyfrau buddiol ac o bregethau a thraethodau da, ar byngciau dadleuol ac ymarferol; ynghyd â thraethodau byr a chynnwysfawr o'r fath ag sy'n gymmwys i'w taenu ymhlith y werin, ac hyd yn oed i'w gosod yn nwylaw ieuengctyd a phlant.

Yr aelodau a dalant 10s. 6c.; 5s. neu 2s. 6c. yn flynyddol; a derbyniant werth eu harian o'r llyfrau y ddewisant allan o'r *Catalogue* argraffedig. Y mae'r dirprwywyr a'r swyddogion, i ba rai yr ymddiriedir gofal y gymdeithas ac i gario ymlaen ei hamcanion, yn cael eu dewis allan o'r aelodau ag ydynt yn preswylio yn Mristol, ac yn cynnwys Gweinidogion *Lewin's Mead*, fel matter o gwrs. O Fristol hefyd y mae'r llyfrau i'w cael. Os bydd neb o'n darllenwyr yn ewyllysio cael helaethach hysbysiad, bydd yn dda genym ei roddi, neu i'w cyfarwyddo pa fodd i'w gael.

Nid yw y brodyr a roddasant eu henwau fel aelodau i'r Gymdeithas Seisnig ddim, oddieithr dau neu dri o honynt, yn darllen Cymraeg; ac o ganlyniad nid ydynt yn darllen yr *Ymofynydd*. Onite buasem yn cymeryd y rhyddid i ddywedyd wrthynt, mai arnynt hwy—ar eu zel a'u hymdrechiadau i ddosbarthu neu fenthyca'r llyfrau buddiol a dderbyniant, i'r werin ac eraill yn eu cymdogaeth—yr ymddibyna i fesur mawr y lleshâd yr ydys yn ei obeithio oddiwrth ymweliad diweddar y Gymdeithas Orllewinol â Chymru. Diau fod cannoedd lawer yn nghylchoedd Abertawe, Merthyr, a Chastell Nedd, &c., i ba rai y byddai yn ddymunol ac yn fendithiol iddynt gael darllen y cyfryw lyfrau yn yr iaith y medrant ei deall.

Camsynied fyddai tybied fod ein brodyr o Loegr yn ewyllysio cymeryd ein priod waith allan o'n dwylaw ni y Cymry genedigol. Y mae'r maes yn helaeth. Y mae digon o le iddynt hwy a ninau, i gydweithio, hyd eithaf ein gallu a'n diwydrwydd, a chyda'r un amcan, yn ngwaith y cynhauaf

mawr. Gwnaent hwy eu goreu i ddarparu ar gyfer angenrheidiau y rhai hyny o drigolion Cymru ag ydynt yn arferyd y Saesneg yn hytrach na'r Gymraeg. Ein gwaith ninau fydd, neu ddylai fod, i wneud a allom i ddiwallu angenrheidiau crefyddol a moesol y *Cymry uniaith*, trwy ymddiddan, cynghori, ymresymu, pregethu ac ysgrifenu, a chyhoeddi llyfrau ar destunau pwysig crefydd a duwioldeb, gan ddefnyddio i'r perwyl hyn yr unig offerynoliaeth ag y mae yr amgylchiadau yn caniatau yn bresenol—sef, HEN IAITH EIN GWLAD.

Nid oes le i ammau fod yr arferiad o'r Saesneg yn myned ar gynnydd yn y dywysogaeth, yn nghylchoedd y gweithfeydd yn enwedig; ond etto, mor bell ag yr ydym ni yn gallu barnu, y mae cymaint o ddarllen Cymraeg yn awr ag a fu erioëd, os nad mwy. Fel nad oes mewn gwirionedd un achos nac esgus i ni laesu ein dwylaw, oherwydd cyfyngiad y maes y gelwir arnom i weithio ynddo. Credwn nad oes eisieu ymhelaethu ar y pen.

Y mae ein gohebwyr a'n dosbarthwyr, ac yn ddiau ein darllenwyr, yn gwybod ac yn teimlo hyn. Wele y gwaith o'n blaen. Nid yw ond oferedd a rhagrith i ni "weddio, ar i Arglwydd y Cynhauaf anfon gweithwyr i'w gynhauaf," os yr ydym ni yn fusgrell ac yn esgeuluso gwneuthur ein rhan yn zelog ac yn ffyddlon.

Darfu Cymdeithas Llyfrau y Deheubarth, yn ei dydd, wneud llawer o ddaioni, trwy argraffu yn Gymraeg amryw lyfrau a chyfieithiadau buddiol, pa rai nis gallesid disgwyl eu cael oddieithr trwy y fath offerynoliaeth. Bu yn ddefnyddiol ac yn llwyddianus dros tuag ugain mlynedd. Terfynodd ei defnyddioldeb mewn ymddangosiad trwy ddwyn allan waith gwerthfawr ond costfawr—rhy gostfawr fel y gwelwyd yn ôl llaw,—sef, cyfieithiad o Waith Belsham ar Berson Crist. Ond y mae yn dda genym hysbysu, fod y llyfr hwnw i'w gael yn awr am bris lled isel: ac yr ydym yn deall fod tua £30 yn llaw y Trysorwr, tuag at argraffiad newydd o waith Mr. James, ar Haeddiant: ynghyd a nodiadau ychwanegol gan yr awdwr. Disgwyl yr ydys yn awr wrth Mr. James; hyderwn y cawn yr hyfrydwch ar fyr o hysbysu fod yr argraffiad newydd yn y Wasg.

Chwe mlynedd yn ôl y ffurfiwyd *Cymdeithas Llyfrau Undodiaid Gwent a Morganwg;* a hyny gydâ'r gobaith y gallesid gosod i fynu Gyhoeddiad Misol. Ac yn mhen y flwyddyn ganlynol ymddangosodd yr *Ymofynydd*. Yn y cyfamser argraffwyd "Pregeth" Mr. Jones, Aberdâr, "Ar y Pechod yn erbyn yr Yspryd Glân;" Pregeth Mr. O. Evans, "ar Farnedigaethau Tymorol," a'i gyfieithiad o Bregeth Raphael "ar Undod Duw;" a'n Pregeth ni ar yr "Undeb rhwng Crist â'r Tad."

Gellir cael y cyhoeddiadau hyn gyda'r *Ymofynydd*, ddim ond anfon am danynt; ac am brisoedd isel. Pa fodd bynag, ni ellir dywedyd fod *Cymdeithas Gwent a Morganwg* wedi marw, tra y byddo yr *Ymofynydd* yn fyw, ac yn atteb yr amcan oedd mewn golwg, pan ei gosodwyd ar droed.

Dyma'r 60fed rifyn o'n cyhoeddiad. Dros ba gymaint y bydd iddo gael ei barhâu ymhellach, nid oes neb a wyr. Ymddibyna hyny ar farn y cyhoedd ynghylch ei deilyngdod; ac ar ddiwydrwydd o ffyddlondeb ein cynnorthwywyr a'n derbynwyr.

A YDYW CRIST YN WRTHRYCH ADDOLIAD DWYFOL?

LLYTHYR III.

Mr. Ymofynydd.—Yr wyf eisioes wedi parotoi'r ffordd i raddau pell tuag at atteb y gofyniad uchod. Fe wel y darllenydd oddiwrth yr hyn a ysgrifenais yn barod, nad yw fod y gair *addoliad*, yn cael ei arfer am Grist ddim yn brawf i addoliad dwyfol erioed gael ei dalu iddo, na'i dderbyn ganddo. Yr ydym wedi gweled fod yr arferiad yn gyffredinol yn y dwyrain, i dalu y cyfryw barch i fawrion ac ereill; yr ydym wedi canfod hefyd, fod yr Hen Destament yn llawn o'r fath engreifftiau. Dim llai na deuddeg gwaith a deugain y mae'r gair *shachah*, a'r Groeg *proskunein*, addoli, yn cael eu harfer am ddynion yn yr Hen Destament! Dangosais hefyd fôd y gair *worship*, ymhlith y Saeson yn y wlad hon, wedi bod yn cael ei arfer mewn cyffelyb ystyr.

Gan mai felly y mae, ni a drown yn awr i chwilio y lleoedd hynny a ddygir ym mlaen i brofi fod addoliad, ac yn ol tyb rhai, addoliad dwyfol, wedi cael ei roddi i'n Harglwydd Iesu Grist, a'i dderbyn ganddo. Yn wir, clywais rai yn dywedyd, "Os nad yw ein Harglwydd Iesu Grist yn wir Dduw, ei fod y twyllwr mwyaf a fu erioed; oherwydd iddo dderbyn addoliad a berthyn yn unig i'r Duw Goruchel." Paham, meddir, na fuasai yn ei wrthod ef, fel y gwnaeth Petr yn nhŷ Cornelius, os mai dyn yn unig oedd? Twyllwr, a ïe? Beth am Daniel ar y tir hwn; "a Nebuchodonozor y brenhin a syrthiodd ar ei wyneb ac addolodd Ddaniel; gorchymynodd hefyd am offrymu iddo *offrwm* ac arogl darth?"

Dyma Daniel wedi cael ei addoli, ac *offrwm* ac arogldarth wedi eu gorchymyn iddo; ie, Daniel dduwiol wedi cael a derbyn addoliad oddiwrth frenhin hefyd; ac etto nid oes un gair, dim sill yn yr hanes yn dywedyd wrthym i Daniel wrthod y cyfryw barch, na dangos yr anfoddlonrwydd lleiaf ar yr achlysur. Nid oes a ddywed lai nad dyn yn unig oedd Daniel, ac ni chair nemawr yn foddlon clywed am dano mai twyllwr oedd chwaith. Iesu Grist yn dwyllwr, a ïe? Taw'r ffol: dos i'r gynnulleidfa acw, a gwel yr Arglwydd a'r brenhin Dafydd yn cael eu haddoli, ar yr un pryd, gan yr holl dyrfa. 1 Chron. xxix. 20. Ac etto, nid oes nemawr yn meddwl fod Dafydd yn dwyllwr diegwyddor, er mai dyn, a dyn yn unig oedd. Gallaswn enwi Joseph, Eliseus, a lluoedd eraill, raid fod yn dwyllwyr 'u gyd, yn ol yr haeriad byrbwyll uchod. Ond digon ar hynna, ni a awn bellach at y profion a debygir fod yn dangos Iesu yn wrthrych addoliad dwyfol.

Ni a ddechreuwn gyda Matthew. Yn yr ail bennod ni a gawn hanes y doethion, neu y swynwyr, *magoi, magicians, astrologers*, neu ddynion yn cymmeryd arnynt ddarllen ffortun wrth y ser a'r planedau. Hyn sydd amlwg oddiwrth ddau beth; yn gyntaf, oddiwrth ystyr y gair a'i arferiad yn yr Hen Destament a'r Newydd; yn ail, oddiwrth yr amgylchiad a nodir yn yr hanes. Yn gyntaf oddiwrth ystyr y gair a'i arferiad. *Magoi:* y mae'n cael ei arfer yn aml yn yr Hen Destament, ac yn cael ei gyfieithu, astronomyddion. Gwel Daniel i. 20; ii. 2, 10, 27; iv. 4. (Cymraeg 7); v. 7, 11, 15; yn y Septuagint. Yn yr holl leoedd hyn, y mae yn cael ei arfer mewn ystyr ddrwg. Yn y Testament Newydd nid yw'r gair i'w gael ond dwy waith yn unig heblaw'r bennod dan sylw; sef, Act. xiii. 6, 8, ac yn cael ei gyfieithu *swynwr*, "Ac wedi iddynt dramwy trwy'r ynys hyd Paphos, hwy a gawsant ryw *swynwr*, gau brophwyd o Judea, a'i enw Bar Iesu. Eithr

Elimas y *swynwr* (canys felly y cyfieithir ei enw ef) a'n gwrthwynebodd hwynt." *Magos* yw'r Groeg yn y ddau fan hyn, yr un gair ag sydd yn Matthew. Yn ail, oddiwrth yr amgylchiad a nodir yn yr hanes o'n blaen, ymddengys mai ser-ddewiniaid oeddent. (ii. 2),—"Pa le y mae'r hwn a anwyd yn Frenhin yr Iuddewon? canys gwelsom ei *seren* ef yn y dwyrain, a daethom i'w addoli." Felly y mae arferiad y gair, a'r *seren* a welsant, yn nodi allan eu cymeriad fel *astrologers*. Ond ni a gymerwn yr hanes fel ag y mae. Y mae'r gair *proskunein*, addoli, yn cael ei arfer dair gwaith yn y bennod hon; sef, adn. 2, 8, 11,—"Pa le y mae yr hwn a *anwyd* yn Frenhin yr Iuddewon.....daethom i'w addoli. 8,—"Ewch, medd Herod, ac ymofynwch yn fanwl am y *mab bychan*; a phan gaffoch ef, mynegwch i mi, fel y gallwyf finnau ddyfod a'i addoli ef." 11,—"A phan ddaethant i'r tŷ, hwy a welsant y *mab bychan* gyda Mair ei fam, a hwy syrthiasant i lawr ac a'i haddolasant."

Nawr, ddarllenydd, ai addoliad *dwyfol* oedd yn cael ei dalu iddo yn ol yr hanes hwn? Oh! nage, fawr; ond un wedi ei eni ("Pa le y mae'r hwn a *anwyd* yn Frenhin yr Iuddewon,") mab, a mab bychan, plentyn bach, oedd yn cael yr addoliad yma. A hwy a gawsant y mab *bychan*, a hwy a syrthiasant i lawr ac a'i haddolasant ef. Ni threuliaf ragor o bapur ag ingc ar yr enghraifft hon ynte, gan nas gall geiriau wneud y peth yn fwy eglur na'r hanes ei hun, mai nid i Dduw y telid yr addoliad hwn.

Y man nesaf lle y caf y gair *proskunein*, addoli, yw—Hanes y gwahanglwyfus a gawn yn Mat. viii. 2; Marc i. 40, a Luc v. 2. Mi a roddaf i lawr yma yr hanes fel y mae yn y tri Efangylwr.—"Ac wedi ei *ddyfod i wared o'r mynydd*, torfeydd lawer a'i *canlynasant* ef. Ac wele un gwahanglwyfus a *ddaeth* ac a'i haddolodd ef, gan ddywedyd, Arglwydd, os mynni, ti a elli fy nglanhau i. A'r Iesu a *estynodd ei law*, ac a gyffyrddodd ag ef, gan ddywedyd, Mynnaf, glanhaer di"—Marc;—"Ac yr oedd efe yn *pregethu yn eu synagogau* hwynt trwy holl Galilea, ac yn bwrw allan gythreuliaid. A *daeth atto ef* un gwahanglwyfus, gan ymbil ag ef, a *gostwng ar ei liniau* iddo, a dywedyd wrtho, Os mynni, ti a elli fy nglanhâu. A'r Iesu gan dosturio, a *estynodd ei law*, ac a gyffyrddodd ag ef, ac a ddywedodd wrtho, Mynnaf, bydd lân."—Luc;—"A bu fel yr oedd ef *mewn rhyw ddinas*, wele wr yn llawn o'r gwahanglwyf; a phan *welodd* efe yr Iesu, efe a syrthiodd ar ei wyneb, ac a ymbiliodd ag ef, gan ddywedyd, O Arglwydd, os ewyllysi, ti a elli fy nglanhâu. Yntau a *estynodd ei law*, ac a gyffyrddodd ag ef, gan ddywedyd, Yr wyf yn ewyllysio; bydd lân." Felly y mae'r hanes yn sefyll yn y tri Efangylwr. Nid yw'r *gair* addoliad ddim i'w gael ond yn Matthew yn unig; ond y mae'r ddefod yn cael ei nhodi allan gan Marc a Luc yn y geiriau "*gostwng ar ei liniau*, *syrthiodd ar ei wyneb*," yr hyn sydd yn dangos yn amlwg ym mha ystyr yr oeddent hwy yn arfer y gair *proskunein*, addoli; sef plygu ar y gliniau, syrthio ar y wyneb, ymgrymu. Yn y tri hanes yma etto y mae digon i ddangos, nad i'r Iesu fel Duw yr oedd y parch hwn o ymgrymu yn cael ei ddangos. Yn Mathew, y mae'r Iesu yn *dyfod i wared o'r mynydd* a thorfeydd lawer yn ei ganlyn ef; ymadrodd hollol anghymwys i'w arfer am Dduw hollbresenol. Nid oes i fynu a wared yn perthyn iddo ef; ac nis gall symmud o fan i fan.

Yn Matthew a Marc dywedir i'r gwahanglwyfus fyned at yr Iesu; felly bod lleol ac nid hollbresenol oedd yno, onide ni buasai achos i'r dyn i gyffro o'r man lle yr oedd ar y pryd, er mwyn nesau at fôd ag oedd gydag ef ar yr

amser. Etto y mae'r tri Efangylwr yn dywedyd, i'r Iesu estyn ei law a chyffwrdd a'r gwahanglwyfus. Felly dyn oedd yno yn sicr, yn estyn ei law i gyffwrdd ag un arall. Yn awr, i un oedd yn *symud o fan i fan*, un oedd *yn* y ddinas ar pryd, yn cael ei *weled* gan y gwahanglwyfus, un yn *estyn ei law* ac nid i'r Duw hollbresenol y mae'r addoliad hwn etto yn cael ei roddi. Felly, wele ddwy enghraifft o leiaf yn dangos yn eglur mai nid addoliad dwyfol oedd yn cael ei dalu i'r Iesu. Ymlaen etto.

Yr enghraifft nesaf yw hanes Jairus, pennaeth y synagog a'i ferch fechan, yr hon oedd ar drange marwolaeth. Y mae'r hanes i'w weled yn Mat. ix. 18, 19; Marc v. 22, 23, 24; Luc viii. 41, 42. Gosodaf hanes y tri Efangylwr i lawr yma etto yn llawn. "Tra yr oedd efe yn dywedyd hyn, wele daeth rhyw bennaeth, ac a'i *haddolodd ef*, gan ddywedyd, Bu farw fy merch yr awr hon: eithr *tyred a gosod dy law* arni, a byw fydd hi. A'r Iesu a *gyfododd ac a'i canlynodd ef*, a'i ddisgyblion; (adn. 25), Ac wedi bwrw y dyrfa allan, efe a *aeth i mewn*, ac a *ymaflodd yn ei llaw hi*; a'r llances a gyfododd." Marc: "Ac wele, un o bennaethiaid y synagog a ddaeth, a'i enw Jairus; a phan ei *gwelodd*, efe a *syrthiodd wrth ei draed ef*. Ac efe a fawr ymbiliodd ag ef, gan ddywedyd, Y mae fy merch fechan ar drange: attolwg i ti *ddyfod a dodi dy ddwy law arni*, fel yr iachâer hi, a byw fydd. A'r Iesu a *aeth gydag ef*: a thyrfa fawr a'i *canlynodd ef*, ac a'i *gwasgasant ef*; adn. 38, 39. Ac efe a *ddaeth i dy* pennaeth y synagog, ac a ganfu'r cynnwrf, a'r rhai oedd yn wylo ac yn ochain llawer. Ac wedi iddo *fyned i mewn*, &c. Luc, Ac wele, daeth gwr a'i enw Jairus; ac efe oedd lywodraethwr y synagog: ac efe a syrthiodd wrth draed yr Iesu, ac a attolygodd iddo *ddyfod i'w dy ef*. Oherwydd yr oedd iddo ferch uniganedig ynghylch ddeuddeng mlwydd oed, a hon oedd yn marw, (Ond fel yr oedd efe yn myned, y bobl a'i gwasgent ef); adn. 51, Ac wedi ei *fyned ef i'r ty*, ni adawodd i neb ddyfod i mewn, ond Petr, ac Iago, ac Ioan, a thad yr eneth a'i mam." Yn awr, a oes rhyw beth yn yr hanes hwn, yn dangos i Jairus dalu addoliad dwyfol i'r Iesu? Dim un gair; ond yn hollol i'r gwrthwyneb. Y mae Jairus yn ymbil ar i'r Iesu *fyned gydag ef* at ei ferch; ac y mae'r hanes yn dywedyd i'r Iesu *ganlyn* y pennaeth, iddo gael ei *wasgu* gan y dyrfa ar y ffordd tuag yno: wedi cyrraedd pen y daith, y mae'n *myned i mewn i dy* Jairus, yn gosod ei *law* ar y ferch, ac yn ei gwella. Ond gwrthun fyddai dywedyd fod Duw yn canlyn Jairus, ei fod yn cael ei wasgu gan neb, na'i fod yn myned i mewn i dŷ neb. Ië medd rhyw un, am yr Iesu fel dyn y mae'r fath ymadroddion yn cael eu harfer. O'r goreu, meddaf finnau; iddo fel dyn hefyd y darfu i Jairus dalu addoliad; oblegid wrth *draed yr Iesu* y syrthiodd, ïe, yr Iesu ddarfu ei ganlyn wedi hynny, gafodd ei wasgu gan y dyrfa, a myned i mewn i dŷ Jairus. Nid oes cymmaint a sill yn yr hanes yn dangos fod Jairus yn meddwl fod yno ragor na dyn ag awdurdod ddwyfol ganddo. Sylwer hefyd, nad oes ond un o'r tri Efangylwr yn arfer y gair *proskunein*, addoli, am yr Iesu, wrth adrodd yr amgylchiad; yn lle y gair hwn y mae'r ddau ereill yn arfer yr ymadrodd, "syrthiodd wrth ei draed." Amlwg ynte ydyw, nad oedd yr Efangylwyr ddim yn gosod dim pwys ar y *gair*, fel y gwnair gan lawer yn bresenol, onide buasent yn ei arfer eu tri. Ond gwyddent, er na arferasant y gair, eu bod wedi cadw'r ddefod; ac yr oedd hynny yn ddigon yn eu golwg hwynt, a dylai fod yn ddigon i bawb etto. Bid hyn fel y bo: af ymlaen etto, at—

Mat. xiv. 33—"A *daeth* y rhai oedd yn y llong, ac a'i haddolasant ef, ac

a ddywedasant, Yn wir *Mab Duw ydwyt ti.*" Yn yr hanes, o'r hwn y mae yr adnod hon yn rhan, ni a gawn i'r Iesu yrru ei ddisgyblion i'r llong, tra y byddai ef yn gollwng y torfeydd; ar ol hynny, iddo *esgyn i'r mynydd* wrtho ei hun i *weddio;* cofia ddarllenydd, i *weddio* ac nid i gael ei addoli. Y mae'r llong maes o law, yn drallodus gan donnau, ar y bedwaredd wylfa o'r nos aeth yr Iesu attynt, gan rodio ar y môr. Pan *welodd* y disgyblion ef, dywedasant mai drychiolaeth oedd; nid oedd yno neb yn dywedyd mai Duw oedd. Y maent yn gwaeddi gan ofn, a'r Iesu yn eu hatteb, "Myfi ydyw, nac ofnwch." Y mae Petr yn dywedyd, "os tydi yw, arch i mi *ddyfod attat* ar y dyfroedd. Ac efe a ddywedodd *tyred.*" Y mae Petr yn myned, yn dechreu suddo, ac yn gwaeddi, "Cadw fi." Yna y mae'r Iesu yn *estyn ei law,* ac yn ymaflyd ynddo. Yna y mae Petr a'r Iesu yn *myned i mewn i'r llong,* a'r rhai oedd yn y llong yn dyfod ac yn addoli yr Iesu. Yna etto dyn sydd yn cael ei addoli; ïe dyn a aeth i'r mynydd i weddio; at' yr hwn yr aeth Petr ar y môr; yr hwn a estynodd ei law i achub Petr, ac a aeth, gydag ef i mewn i'r llong, ac yno y mae'n cael ei addoli, nid fel y Duw goruchaf, gwrthrych gweddi Crist ei hun a phob gwir addolwr; nid fel yr hwn sydd yn llenwi yr holl fodoldeb a'i bresenoldeb, ond fel un yn symud o fan i fan; fel Mab Duw medd yr hanes ei hun yn yr adnod dan sylw. "Yn wir Mab Duw ydwyt ti." Felly os Mab Duw oeddent hwy yn gredu fod yr Iesu, nis gallasent ei addoli fel bod o uwch, heb ddywedyd hynny.

Yr enghraifft nesaf yw'r wraig o Ganaan, a welir yn Mat. xv. 25. "Ond hi a ddaeth ac a'i haddolodd ef." Yn yr hanes hwn etto yr ydym yn cael fod yr Iesu yn myned o un man i fan arall, fod ei ddisgyblion yn *dyfod atto,* ac yn attolygu iddo ollwng y wraig ymaith, oherwydd ei bod yn llefain ar eu hôl hwynt. Digon i'r darllenydd y sylwadau a wnaethum yn barod, a darllen yr hanes, yr hwn a welir o'r 21 adn., hyd yr 28 adn.

Yr adnod nesaf lle y mae y gair *proskunein* yn cael ei arfer am Grist yw Mat. xx. 20—"Yna y *daeth* mam meibion Zebedeus *atto* gyda'i meibion, gan *addoli* a deisyf rhywbeth ganddo." Mai fel brenhin yr oedd y wraig hon yn ei addoli, neu yn hyttrach fel un oedd i fod yn frenhin, sydd amlwg oddiwrth yr hanes. Ei chais yw, cael o'i dau fab eistedd, y naill ar ei law ddehau, a'r llall ar ei law aswy, *yn ei* frenhiniaeth. Yr oedd y wraig yn credu fod amser o well i wawrio ar yr Iesu, pan y byddai i'r saer tlawd o Nazareth, i gael ei dderchafu i sefyllfa anrhydeddus. Yr oedd hi fel y lluaws, yn tybied y byddai, ryw bryd, yn frenhin daearol, ac y mae hi, fel llawer mam gamsyniol arall, am gael sefyllfa anrhydeddus yn yr hen fyd yma, i'w dau fab; am iddynt gael bod mewn sefyllfa o awdurdod dan yr Iesu yn ei frenhiniaeth. Felly y mae cais y wraig hon yn eglur ddangos natur yr addoliad. Ond y mae rhagor etto yn yr hanes. Y mae atteb yr Iesu i'r wraig yn gwrthdaro'r meddwl ei fod yn Dduw yn bendant. "Diau, medd ef, yr yfwch o'm cwppan, ac y'ch bedyddir a'r bedydd y'm bedyddir ag ef; eithr eistedd ar fy llaw ddehau ac ar fy llaw aswy, *nid eiddof ei roddi;* ond i'r sawl y darparwyd gan fy Nhad." Felly dyma sicrwydd nad Duw oedd yr Iesu pan yn llefaru a'r wraig hon. Ar ol hyn yr ydym yn cael i'r Iesu *fyned i Jericho,* a thyrfa fawr yn ei ganlyn ef, heb un gair yn dangos y Bod, hollbresenol, sydd yn llenwi nefoedd a daear ar yr un waith.

Mat. xxviii. 9—"Ac fel yr oeddynt yn myned i fynegi i'w ddisgyblion ef, wele, yr Iesu a *gyfarfu* a hwynt, gan ddywedyd, Henffych well, A hwy

a *ddaethant*, ac a *ymafaelasant* yn ei draed ef, ac a'i haddolasant," adn. 10. "Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt, Nac ofnweh: ewch, mynegweh i'm *brodyr*, fel yr elont i Galilea, ac yno y'm *gwelant* i." Yn ganlynol yr ydym yn cael iddynt fyned. Adn. 16, 17—"A'r un ddisgybl ar ddeg a aethant i Galilea, i'r mynydd lle yr ordeiniasai yr Iesu iddynt. A phan *welsant* ef, hwy a'i *haddolasant* ef, ond rhai a amheuasant." Yn yr adnod flaenaf, y mae'r gwragedd yn ymafaelyd yn *phraed* yr Iesu, ac yn ei addoli. Yn sier, nis gallasai fod ganddynt un dychymyg ei fod ef yn Dduw pan yngafael a'i draed ef: a phe buasai, y mae atteb yr Iesu yn ddigon i ddangos iddynt eu camsynied. "Ewch, a mynegweh, i'm *brodyr*, fel yr elont i Galilea, ac yno y'm *gwelant*. Diammau, gwnaeth y gwragedd yn ol cais yr Iesu, heb betruso dim pwy allasai y brodyr hynny fod. Yn yr ail enghraifft, y mae ei ddisgyblion yn myned i Galilea, i'r mynydd lle'r ordeiniasai yr Iesu iddynt. A phan *welsant* ef, hwy a'i haddolasant ef; ond rhai a amheuasant. Felly wedi iddynt ei *weled* yr ymgrymasant iddo, (oblegid dyma ddylai y gair fod), yn ol defod eu gwlad. Ond pe buasent yn credu ei fod ef yn Dduw, buasent yn ei addoli ef cyn erioed iddynt ei weled ef ar fynydd Galilea, ac wedi hynny hefyd. Amlwg yw, ynte, mai parch gwladol a dalent i'w meistr ar y pryd hwn.

Yr esiampl nesaf yw'r gwallgof-ddyn yng ngwlad Gadara. Marc. v. 6—"Ond pan *ganfu* efe yr Iesu o hir bell, efe a redodd ac a'i haddolodd ef." Yn yr hanes a rydd Matthew a'r amgylchiad, nid oes un gair am addoli oll; ac yn Luc, syrthio i lawr ger bron yr Iesu a wnaeth. Yma etto y mae'n amlwg, mai bôd gweledig a lleol oedd yn cael ei addoli, pe achos hefyd i sylwi oll ar ymddygiad dyn allan o'i bwyll.

Yr enghraifft nesaf yw'r *sham* addoliad a dalodd y milwyr iddo ychydig cyn ei groeshoelio; a chan mai *sham* oedd, ni wnaf ragor na difynu yr adnod a'i gadael, heb un sylw ychwanegol. Marc xv. 19—"A hwy a gurasant ei ben ef a chorsen, ac a boerasant arno, a chan ddodi eu gliniau i lawr, a'i haddolasant ef."

Yr amgylchiad arall sydd yn Luc xxiv. 52—"Ac wedi iddynt ei addoli, hwy a ddychwelasant i Jerusalem, gyda llawenydd mawr." Yma etto yr ydym yn cael i'r Iesu eu dwyn hwynt allan hyd yn Bethania; *iddo godi ei ddwylaw* a bendithio ei ddisgyblion, a thra yr oedd yn eu bendithio iddo *ymadael* a hwynt. Ymadroddion hollol amhriodol am Dduw. Y mae pob peth yn yr hanes yn dangos mai dyn o hyd sydd genym. Yma cawn iddo fyned gyda ei ddisgyblion i fan neillduol; iddo eu bendithio, ac yna *ymadael*.

Yr esiampl nesaf a'r olaf a gaf yn y pedair Efengyl, yw hanes y dyn dall o'i enedigaeth, yn Ioan ix. 38—"Yntau a ddywedodd, yr wyf fi yn credu, O Arglwydd: ac efe a'i haddolodd ef." Gan fod son am gredu yn yr adnod hon, y mae o bwys i wybod credu peth sydd i ni feddwl. Credu fod Iesu yn Dduw? Nage, fel y mae yn amlwg oddiwrth yr ymddiddan. Yn adn. 35; y mae'r Iesu yn gofyn iddo, A wyt ti yn credu ym *Mab Duw*? Yna y mae yr hwn a fuasai yn ddall yn gofyn, pwy yw efe, O Arglwydd, fel y credwyf ynddo? Yna y mae'r Iesu yn atteb, "Ti a'i *gwelaist* ef, a'r hwn sydd yn ymddiddan a thi, hwnnw ydyw efe." Yna y mae'n canlyn yr adnod dan sylw. Credu oedd hwn, ynte, mai Mab Duw oedd yr hwn oedd yn weled ar y pryd, a'r hwn oedd yn ymddiddan ag ef; ac fel y cyfryw y mae'n talu parch iddo trwy ymgrymu. Bod gweledig sydd yma etto, ac nid Duw

anweledig. Anghofiais roddi cyfieithiad Mr, John Williams, o'r Drefnewydd, o bob adnod wrth fyned ymlaen, fel yr oeddwn yn bwriadu; digon yw dywedyd nad yw ef ddim yn cyfiaethu'r gair *proskunein*, yn addoli, yn un o'r mannau uchod, ond yr enghraifft olaf ond un. Paham y mae yn cyfiaethu r gair yn addoli yn Luc xxiv. 52, tra yn ei gyfiaethu yn ymgrymu, neu gwarogaeth, ymhob un o'r mannau eraill, sydd ddirgelwch i mi; ac eithaf tebyg y caf aros yn y tywyllwch hefyd.

Nid oes ond un adnod yn unig yn ychwaneg, lle y mae'r gair addoliad yn cael ei arfer, neu y tybir ei fod yn cael ei arfer am Iesu; sef, Heb, i. 6—"A thrachefn, pan yw yn dwyn y cyntaf-anedig i'r byd;" neu gwell fel hyn, "A phan yw yn dwyn drachefn y *cyntaf-anedig* i'r byd, y mae 'n dywedyd, "Ac addoled holl angylion Duw ef." Yn y bennod yma, y mae'r Iesu yn cael ei osod allan yn Fab Duw, ac nid Duw; un wedi eu *wneud* yn etifedd pob peth; un wedi eu *wneuthur* yn well na'r angylion, am fod ganddo enw mwy rhagorol na hwynt-hwy; Un wedi ei eneinio ag olew gorfoledd tuhwnt i'w gyfeillion; ac yn yr adnod dan ystyriaeth, y mae yn cael ei alw yn gyntaf *anedig*. Felly i un wedi ei eni, un wedi ei *eneinio*, un wedi ei *wneuthur* yn well na'r angylion, sydd yn cael ei nodi allan, yn bendant, fel *Mab* Duw, i hwn meddaf y mae'r addoliad yn cael ei orchymyn. Parch gwladol ac nid addoliad dwyfol sydd yma etto.

Feallai fod rhyw un yn barod i ofyn, paham na fuasai yn gwrthod addoliad, os mai dyn yn unig oedd, fel gwnaeth Petr a Chornelius? Yr oedd Petr yn gwrthod y parch hwn oddiwrth Cornelius, oherwydd mai gwas oedd ef ar ei neges at Cornelius, un heb un swydd wladol, un o'r bobl gyffredin, ac felly nid oedd yr addoliad hyn yn gweddu iddo.

Clywais rai yn gosod pwys hefyd ar fod gorchymyn i addoli Crist. Fod dynion wedi cael eu haddoli, ond nad oes un gorchymyn am addoli neb ond Crist. O bob *shift* dyma'r gwanaf. Pa wahaniaeth a all hyn wneud? Os oes addoliad wedi ei dalu i, a'i dderbyn gan, ddynion, yna yr oeddent yn ddyuion drwg, neu nid oedd yr addoliad a delid iddynt ddim ond parch gwladol. Y mae rhyw beth yn dyfod yn agos iawn at orchymyn i addoli angel yr eglwys yn Philadelphia. Dat. iii. 9—"*Gwnaf* iddynt ddyfod ac *addoli* o flaen dy draed." Os nad oes yma orchymyn, y mae yma beth o gryfach. Ffarwel.

O. Evans

Mr. Ymofynydd.—Mae cannoedd o'ch darllenwyr yn adnabyddus a Hymnau y diweddar Barchedig Thomas Evans, Aberdâr, (Thomas Glyn Cothi), ac yn feddiannol arnynt. Gwn y câr llawer o honynt weled yr englyn hwn o'i waith, ar farwolaeth y Frenhines Siarlot, gwraig y III. Sior, Frenin Lloegr, yr rhon a ganodd yn iach i'r fuchedd hon, ar y 17eg o Dachwedd, 1818, yn myned ar ei 75. Os oes coelio hanes, yr ydoedd yn un o'r gwragedd goreu a fu yn Frenhines ar Loegr.

Y gauaf a'r hâf rhifir—ni orphwys
Ar arffed iseldir;
Mawrion, a gwychion mewn gwir,
Er bydoedd nid arbedir.

Ydwyf, &c.,
J. Jones.

IOLO MORGANWG.

(*Parhad o Tudal* 153.)

Y NOD CYFRIN, &c.

Dywedais i'r *Lyric Poems* mewn dwy gyfrol gael eu cyhoeddi yn 1794, ac yma efallai y disgwylir i mi gynnyg ychydig o sylwadau beirniadol ar y cyfansoddiadau hynny; ond gan fod gweithiau barddonol ereill i ddyfod dan sylw etto, bydd yn well i ni gymmeryd ei farddoniaeth Gymraeg a Saesonaeg dan sylw ar yr un pryd. A than fy mod yn son am destun neillduol mewn cyssylltiad a bywyd Iolo, cymmeraf yr un cyfle i hysbysu fod testunau ereill i ddyfod dan sylw ar ol cwblhau y rhan fywgraffiadol, sef,—

I. Derwyddiaeth Iolo.

II. Braint a Defod Beirdd Ynys Prydain.

III. Coelbren y Beirdd.

Gan hynny ni wneir rhagor yn y man hwn, na sylwi ar y *Lyric Poems* yn eu cyssylltiad a'r nod cyfrin uchod.

Gosodwyd y nod hwn uwchben yr ysgrif bresennol gan olygydd yr *Ymofynydd*, ac am hynny dichon fod yr hybarch foneddwr hwnnw yn gadarn yn y ffydd brân-droedaidd; ond gan nad wyf fi yn un o'r crediniaid, anturiaf i gyfodi'r llen oddiar wyneb yr *Isis* farddol, a datguddio'r dirgelwch sydd yn guddiedig yn y nod cyfrin.

Y mae pob Cymro yn berchen ar Feibl; ac os edrych yn Exodus iii. 13, 14, gwel y geiriau canlynol:—

"A dywedodd Moses wrth Dduw, Wele pan ddelwyf fi at feibion Israel, a dywedyd wrthynt, Duw eich tadau a'm hanfonodd attoch; os dywedant wrthyf, Beth yw ei enw ef? beth a ddywedaf fi wrthynt?

"A Duw a ddywedodd wrth Moses, Ydwyf yr hwn ydwyf: dywedodd hefyd, Fel hyn yr adroddi wrth feibion Israel: Ydwyf, a'm hanfonodd attoch."

Y mae yn amlwg fod amryw dduwiau yn cael eu haddoli gan yr Iuddewon boreuol, megys Baal, Ashtaroth, ac ereill; ac yn yr un bennod y mae *Ydwyf* yn arwyddo mai efe oedd Duw Abraham, Isaac, a Jacob. Efe oedd Duw yr Hebreaid. Ei enw yn eu iaith hwy oedd *Yahouh*, neu *Jehovah; Iao*, y Groegiaid; *You*-piter, neu *Jupiter*, y Rhufeiniaid; a *Iau* y genedl Gymraeg. Ym mhlith yr Iuddewon yr oedd yr enw yn gyssegredig, ac yn annhraethol; a phan fyddent yn son am dano yn yr Ysgrythyrau, gosodent *Adonai*, neu *Elohim* yn ei le; gan fod yr enw *Yahouh*, *You*, neu *Iehovah* yn waharddedig; a dywedid nad oedd neb yn gwybod gwir seiniad y gair ond offeiriaid o'r gradd uchelaf, fel yr arferai Iolo Morganwg i ddweyd nad oedd neb yn alluog i draethu ystyr y nod cyfrin, ond efe ei hun a'r rhai a'i dysgasant ganddo ef.

Y mae Diodorus Siculus, hanesydd Groegaidd, (50 cyn Crist) yn dweyd fod yr Iuddewon yn traethu mai y Duw *Iaó* a ffurfiodd eu cyfreithiau hwynt; ac y mae Theodoret (A.D. 150) yn dweyd mae enw eu Duw hwynt oedd *Iaó*. Yn y canrifoedd cyntaf ar ol dyfodiad Crist, yr oeddynt yn barnu fod rhinweddau swynol yn perthyn i'r gair; ac y mae hwn, ynghyd a'r gair

Abraxas i'w weled yn fynych ar gyfareddion y Gnosticiaid. Y rhan fynychaf gwelir ef yn y ffurf yma I A W a llun yr haul uwch ei ben fel arwyddocad o Grist; ac y mae Walsh yn ei draethawd ar hen fathau *(coins)* Cristnogol, yn barnu mai ystyr y llythyrenau yw—Iesu, Alpha, Omega; ond eu gwir ystyr yw yr hyn a ddywedwyd eisioes.

Y rheswm a roddir gan yr Iuddewon dros gadw'r enw yn ddirgel, a geir yn Exodus iii. 15. Cyfieithir y geiriau yn y Bibl Cymraeg fel y canlyn :—"Dyma fy enw byth, a dyma fy nghoffadwriaeth, o genhedlaeth i genhedlaeth;" ond dywed y Rabbiniaid fod hwn yn gam gyfieithiad, gan fod y gair Hebraeg am "byth," yn arwyddo *cuddiedig* neu *ddirgelaidd* hefyd; a chyfieithir y geiriau ganddynt hwy fel y canlyn :—"Bydded hwn fy enw i yn guddiedig; cadwer hwn mewn cof dros yr holl genhedlaethau."*

Daeth y ddirgel-ddysg hyn yn boblogaidd yn nechreuad y 16eg ganrif, pan yr ysgrifenodd Cornelius Agrippa ei Athroniaeth Guddiedig, a phan yr oedd dysgedigion Ewrop yn chwilio am y *Philosopher's Stone*. Oddeutu yr un amser ymddengys son am y *gair* dirgelaidd ym marddoniaeth y Cymry. Dywed Rhys Goch mai "Gorau Baibl *gair heb wybod*;" ac y mae Sion Cent yn enwi'r llythyrenau yn y gair, yn un o'i englynion ar enwau Duw :—

"Pannon ar Ganon gannaid ai gelwir
Da gwelwn ef o'n plaid,
O. I. ac W. yw a gaid,
Oïw beunydd i pob enaid."

Iolo MSS. 285.

Ysgrifenwyd y gair yn foreuol yn O, I, O, (Iolo MSS., 617) ac wedi hyny yn O, I, U.

Yn nhraethawd Ab Iolo ar Goelbren y Beirdd, dywedir i enw Duw gael ei ddatguddio i Einigan Gawr, ac i Menw ab y Teirgwaedd, ar dri phaladr goleuni; a chanmolir ardderchogrwydd y dychymmyg gan Ab Iolo, uwchlaw yr eiddo pob Cenedl arall; ond y mae ar gof gennyf fod hanes am weledigaeth go gyffelyb yn llyfr y Proffwyd Ezeciel. Y tri phaladr goleuni hyn a ddynodir gan y nod cyfrin; a'r gair oedd arnynt yn gosod allan enw Duw oedd VV, *Y, F.*

Yn ci oes yr oedd Iolo yn bostio nad oedd ond tri gwr ym Morganwg yn deall yr arwydd, neu mewn geiriau ereill, nad oedd ond efe ei hun, Gwilym Morganwg, a'r Hen Ddafis o Gastellnedd, dan ysprydoliaeth y tywyllwch; ond pan godwyd y llen o flaen Dafis, dygwyddodd fod ei wraig yn clywed. Yr oedd y gwr dan rwymedigaeth i beidio dinoethi'r dirgelwch; ond nid oedd un ffrwyn ar dafod y wraig; a honno a ollyngodd y gath allan o'r cŵd, wrth Mr. Williams, o Benheolgerrig, Merthyr. Dywedir i Iolo gymmeryd y dadguddiad yn lled chwith, ac iddo dystio y buasai yn ofynol i newid yr holl gynllun barddonol; ond nid wyf yn deall fod digon o sail i'r dywediad, o herwydd ei fod mor gyson a'r gred gyffredin, mai *invention* Iolo oedd y cwbl, ac nad oedd un sail hanesyddol i'r nod cyfrin, nac i Goelbren y Beirdd.

Y mae cymmaint a hyn o sail i'r gred hynny; y mae'n amlwg oddiwrth y *Lyric Poems*, a rhagymadrodd William Owen i'w gyfieithad ef o waith Llywarch Hen, fod golygiadau Iolo ar farddas a derwyddiaeth yn eu llawn

* Yr wyf yn ddyledus i olygydd y rhan olaf o'r Iolo MSS., sef, y Parch. W. J. Rees Cascob, am sylwedd y dosran hwn.—(Iolo MSS., 691, note.)

dwf yn 1794 a 1797; ond nid oes un son am y nod cyfrin gan Mr. Owen, ac nid yw y nod hwnw yn y *Lyric Poems*. Y cyhoeddiad nesaf ar ol y rhai hynny oedd y llyfr Hymnau | Salmau | yn 1812; ac yno gwelir gyntaf y nod cyfrin; ond y mae ychydig o wahaniaeth rhyngddo a'r nod cyffredin, gan fod dau o'r paladrau yn grwn fel yma ; ac os cywir y ffurf yna y mae saerniaeth wedi bod ar waith yn cymmwyso'r paladrau allanol. Ond o'm rhan fy hun nid wyf yn ymbwyso ar hyn o beth; yn y Iolo MSS., (tudal 45), y mae'r nod yn dygwydd mewn ysgrif a gymmerwyd o un Llywelyn Sion; ac os nad yw Iolo wedi dilyn yr hen ysgrif yn gydwybodol, arno ef bydded y cywilydd. Credaf ei fod wedi cael y nod cyfrin yn ysgrif Llywelyn Sion; ac ymddiriedaf ar ei air, fod yr hyn a ganlyn yn ddetholiad cywir a didwyll :—

"Llyma Rol Cof a Chyfrif,

"*Sef yn gyntaf y soner am a fu ar gof cyn cadw ar gyfrif, nid amgen,*

"Cyntaf a ellir ar gof caffael Enw Duw sef Duw a roddes ei enw ar lafar, nid amgen nag a chyda'r gair cyflam yr holl fydoedd a'r holl fywydau o'u hanfodoldeb i Fod a bywyd a bloedd Gorfoledd gan adlafaru Enw Duw."

Ystyriai Iolo (MSS. 514) fod y nod cyfrin yn gyfystyr a'r O I W yr hwn a ddylai fod yn I O W, ac felly y mae; gan fod WYF, neu YDWYF, yn y Gymraeg yn gyfystyr a I A O, *You*, *Yahouh*, neu *Iehovah* yr Hebreaid, ac yn gyfieithad o hono. Etto, barnaf nad yw WYF ond esboniad Iolo ei hun, wedi 'fenthyca allan o'r Ysgrythyrau; a chredaf fod mwy o gyssylltiad rhwng y nod cyfrin a'r gair Hebraeg gwreiddiol, nac y sydd rhyngddo a'r gair cyfieithedig. Ac yn ddiweddaf, gyda phob parch at droednoethion y maen chwyf, ac mewn perygl o ysgymmyndod trwy gynffon sarff,* rhaid i mi gyffesu nad oes genmyf nemawr o barch i'r fath ddirgel ddysgeidiaeth, gan nad ydynt ond gweddillion o dwyll ac anwybodaeth oesoedd o dywyllwch a choelgrefydd. "Gwagedd o wagedd," medd y pregethwr; a gwagedd yw'r cwbl yn ol fy nhyb innau; ond rhag digio'r credinwyr, llefared Iolo yn ei enw ei hun.

Mr. Waring (tudal 196) wrth draethu am y berthynas a ddywed—"Y mae'r llinell gyntaf yn cael ei neillduo yn wastad gan yr arwydd mawr Barddonol, sef, y nod cyfrin, yn arwyddo y tair llythyren ddechreuol, ac hefyd enw Duw yn cael ei lefaru yn gydamserol gyda'r tri phaladr goleuni a

---

* Yn Eisteddfodd y maen chwyf ysgymmynwyd Dewi Essyllt trwy gynffon y sarff, a gyrrwyd ef i'r nant, o'r nant i afon Taf, o Daf i'r môr, o'r môr i Abred (purgatory'r Pabyddion), o Abred i Annwn, ac o Annwn i *water-closet* Lucifer. Ymgalonned Dewi; caiff gydymaith cyn bo hir; ac mor gynted ac yr ymddengys yr *Ymofynydd*, caf fyned trwy fysedd cyssegredig Ifor Cwm Gwys. Y mae genmyf bob parch i Ieuan Myfyr, ond nid yw yr hen *gnomon* neu *sundial* a gafwyd yn Rhaglan, yn profi dim dros y nod cyfrin, ond yn hytrach yn ei erbyn; gan fod meini cyffelyb i'w cael allan o Went a Morganwg, lle na chlywid son am y nod cyfrin. Bu'r *Sappers and Miners* yn ymwneled a Merthyr, Caerdydd, ac Abertawe, yn ddiweddar; ac ar y gwelydd cerfiasant mewn amryw fannau y *government mark* Beth yw hynny? Arwydd y "trindod mewn undod cyfan," meddynt hwy; ond dichon tod rhyw fardd braint yn barod i ddweyd ei fod yn perthyn i frawdoliaeth y llinellau unionsyth, sydd i'w gweled lle na bu Cymro cirioed. Ydyw yr Odyddion a'r Freemasons yn feirdd braint? Y mae nodau cyfrin, a phelydrau'r haul "yn uchaf" ar eu harwyddion hwn.

arddangosir felly." Ac yna rhydd eiriau Iolo:—"Y mae wedi bod yn arfer gwastadol gan y Beirdd, medd Edward Williams, i dorri yr Enw Annhraethol ar ochr flaenaf yr ebill cyntaf, ac o herwydd hynny yr ymadroddion diarhebol, *Gair Duw yn uchaf*, ac Enw Duw yn uchaf. Gwaherddir i un bod neillduol lefaru'r gair tair lythyrenol hyn yn hyglyw, ond mae i'w ddefnyddio yn feddyliol mewn annerchiad deallawl i'r Hollalluog, a hynny yn y tawelwch mwyaf. Yr arddangosiad gweledig hwn o'r Enw Annhraethol sydd yn ol athrawiaeth y deg llythyren dechreuol a chyssegredig, ffurf pa rai, ac athrawiaeth eu defnyddiad, ni hysbysir fyth, ond i Fardd wedi ei rwymo yn rhagflaenol, *dan y llw mwyaf difrif ac arswydus*, a ddychymygwyd erioed gan feddwl dyn."

Yn niwedd y *Lyric Poems* gosodwyd yr hysbysiad canlynol;—

"Proposals for publishing by subscription, in January, 1795, by Edward Williams—

I. The History of the Ancient British Bards and Druids: their Discipline, Theology, Moral Maxims, Poetry, Criticism, &c.; compiled from *authentic Welsh Manuscripts*; with large elucidating Extracts from *Ancient Poems*, the *Bardic Triades*, and other old writings: and a review of what *Ancient Foreign Writers* have said on the subject.

CONDITIONS.

1. To be printed on a good wove paper and new type, demy octavo; the price six shillings, as near as can be computed at present.

2. No money required till the work is delivered.

3. To be put to the press as soon as 500 names are received.

ALSO, PREPARING BY THE SAME AUTHOR,

II. A new plan for civilizing the *American Indians* and other *Barbarous Nations*. Addressed to the Protestant Dissenters.

III. A new and Equitable Plan for the gradual Abolition of Slavery in the West Indies. Addressed to the British Legislature.

IV. A search after Political Truth.

Am yr ail a'r pedwarydd, ni chlywir son am danynt mwyach; ond am y cyntaf a'r trydydd y mae gennyf air i'w draethu. Yn ol yr hysbysiad yr oedd Hanes y Beirdd i fod yn barod yn Ionawr, 1795; a gellir dweyd am hwn fwy na ellir am y lleill, sef, ei fod wedi ei ddechreu; gan fod Iolo ym mhen *pedair mlynedd ar ddeg* wedi hynny, yn dweyd—"Y mae fy Hanes y Beirdd *bron yn barod*, a gallaswn ddechreu argraffu, pe buasai gennyf amser ac ysbryd ddigon i ymaflyd yn y gorchwyl. Gwnaiff ddwy gyfrol wythplyg,"—(*Cambrian Register*, iii., 372); a chan fod Ab Iolo yn "Coelbren y Beirdd," yn gwneud dyfyniadau allan o ysgrif ei dad, ymddengys fod y dywediad yn wir, a bod rhan fawr o'r hanes mewn llaw ysgrif yr awr hon.

Gellir syllu gyda mwy o foddlonrwydd ar yr hyn a draethir yn ol llaw. Yr oedd ffydd yn y nod cyfrin yn un o wendidau yr hen fardd; bu'r hen ddefodau farw unwaith, o herwydd methiant, a daeth cyflawnder yr amser i ben; cyhoeddwyd y ddedryd "ymaith" gan y Tragwyddol ei hun, pan anfonwyd goleuni a mab y dyn i blith plant dynion;* a phwy bynag a anturia

* Onid yw yn ysgrifenedig:—"Na wna i ti ddelw gerfiedig, *na llun dim* a'r y sydd yn y Nefoedd uchod, nac ar y ddaear isod, &c., (Exod. xx. 4.) Dywedodd Duw ei enw wrth Moses, a rhoddodd ryddid i hwnnw ddweyd yr enw wrth bawb. Ond wele Duw yn cael ei ddiorseddu, a Iolo Morganwg yn gosod y nod cyfrin yn ei le! Y sylwedd yn rhoddi lle i'r rhith!

fod yn archoffeiriad i hen weddillion paganiaeth, a gymmerth ei le gyda Joe Smith a'i gau-broffwydi. Ond mewn pethau ereill y mae mawredd Iolo yn dyfod i'r golwg; ac yn ei wrthwynebiad i gaethwasanaeth, y mae ei gyfansoddiad moesol yn disgleirio yn ei holl berffeithrwydd. Yr oedd ganddo dri brawd, sef, Thomas yr hwn oedd yn gerfiedydd, a Miles, a John, pa rai oeddent yn seiri priddfeini *(bricklayers)*; aethant oll i'r *West Indies*, a thrwy ddiwydrwydd ennillasant gryn gyfoeth; a chan eu bod yn gwybod am dueddiau llonyddol eu brawd, cynnygasant ei anrhegu a hanner cant punt yn flynyddol, er mwyn gwneyd ei gyflwr bydol mor ysgafn ac yr oedd yn bossibl: ond ar ol ystyried y cynnygiad brawdol, penderfynodd i dalu diolch am y caredigrwydd, ac i wrthod y cynnygiad. Yr oedd ei frodyr yn ennill eu cyfoeth yn ngwlad y caethweision; yr oedd caethweision yn eu cynnorthwyo i ennill eu harian; caethion oedd yn ennill yr arian a delid iddynt am gerfia laeth ac adeiladaeth; a phan feddyliai efe am gaethwasanaeth; cleisiau a llyffetheiriau, ochneidiau, a melldithion; cefnau archolledig a chalonau briw a ffurfient y dychymygion argraffedig ar ei feddwl. "Na wnaf, ni chyffyrddaf a'u harian hwynt," oedd ei benderfyniad ef. "Pris gwaed ydyw, gwerth genedigaeth-fraint dynolryw ydyw, a mi a fyddwn farw o newyn yn hytrach na chymmeryd fy nghynnal gan ffrwyth llygredig yr adgas gaethfasnach." Yn ystod amser bu farw ei frodyr, ac efe a ddaeth yn etifedd i'w meddiannau. Annogwyd ef i fyned drosodd, a sicrhau'r cyfoeth i'w deulu. Ni wnai hynny ychwaith; aethai i Jamaica, rhyddhäai y caethweision, a rhannai y meddiant rhyngddynt, ond ni chymmerai ddim iddo ei hun. Nid oedd a fynnai ef a chyfoeth o'r fath; ac ni chefai y cyfoeth euog hwnnw, trwy ei gydsyniad ef, fyth lygru cydwybodau ei deulu. Yr oedd caethwasanaeth a'i holl gyssylltiadau yn ffiaidd gan yr Hollalluog; yr oedd Efe yn eu casau hwynt; ac yr oedd ei ddigofaint Ef yn aros pawb a garent y gaeth-fasnach, neu ei ffrwythau; ac ni chefai melldith ddisgyn arno ef a'i deulu, o herwydd y fath gyfraniad halogedig." Cadwodd ei benderfyniad trwy ei oes; ac ni dderbyniwyd dim oddiwrth feddiannau ei frodyr, nes iddo ef ymadael a'r fuchedd hon; pan yr achubwyd rhan fechan o'r cyfoeth gan rai o'i ewyllyswyr da er lles i'w deulu. Oddeutu'r amser dan sylw trodd yn fasnachwr; ac arferai arwyddocau fod ar werth ganddo ef; "*Siwgr gwasanaeth rhydd ac anllygredig gan waed dynoliaeth.*" Ac yn y cyfamser yr oedd yn myned i ymweled a thref Bristol, pan glywai clych y dref yn cydganu. Gofynodd y rheswm am hynny, ac attebwyd fod y clych yn canu o herwydd gorfoledd y trigolion, am fod Mr. Wilberforce wedi cael ei orchfygu yn ei ymdrech i ryddhau'r caethion. Pan glywodd hyny, ysgydwodd y llwch oddiwrth ei draed, trodd ei gefn ar y Sodom bechadurus honno, a brysiodd tua thawel fro Morganwg, er fod ei gyflwr yn isel a'i anghenion yn fawr. Yr oedd ei gariad at Wilberforce, a'i gashad o'r gaethfasnach yn ddwfn; ac yn rhif tanysgrifwyr y *Lyric Poems*, enwir y gwron hwnnw yn *Wilberforce Dynoliaeth.*

Mewn perthynas i'r cynllun i ddileu caeth-wasanaeth yn y *West Indies*, nid oes un prawf iddo erioed gael hanfodiad yn un lle ond ym mhen yr hen fardd, gan na chafodd ei argraffu na'i barottoi i'r wasg, a chan na chlywir son am dano mwyach. Tynnodd allan gynllun o Hanes Cymru mewn chwech cyfrol; gwelir y cynllun yn ngwaith Waring; ond dyna gyd a gyflawnwyd erioed.

Addawodd hanes castell Dindryfan i Mrs. Wyndham; ond heblaw ychydig

o nodiadau mewn llythyr at ei fab, ni chyflawnwyd yr amcan; ac mewn cyssylltiad ag Hanes Dunraven, y mae'r sylwadau canlynol o eiddo y Parch. D. Davis, Castellnedd, mewn llythyr at Dr. Thomas Rees, yn teilyngu sylw:—"Y mae'r hanes hyn wedi ei addaw er ys deng mlynedd. Gan wybod nad oes un ymddibyniad i'w roddi ar gyflawnhad addewidion y bardd, er ei fod ar y pryd mewn awydd a llawn fwriad i'w cyflawni, danfonaf attoch yr hanes uchod, yr hyn yn ol pob tebygolrwydd a fydd yr hyn oll a dderbyniwch yn brydlawn oddiwrth ei ysgrifell ef."

Bwriadodd hefyd i ysgrifenu Hanes Morganwg, ond heblaw yr hyn a geir yn y "*Description of South Wales*," gan Dr. Rees, nid oes dim wedi gweled gwyneb haul; ac nid wyf yn deall fod rhagor wedi ei gyfansoddi. Y mae hefyd ar fy nodiadau, iddo ohebu at y *Cambrian Register*, oddeutu 1795, ond ar hyn o bryd, nid wyf yn cofio beth oedd y prawf a'm tueddodd i wneyd cofiant o'r ffaith hynny. Yn y *Cambrian Register*, am 1818, y mae traethawd helaeth ar weithiau *aur* Ynys Prydain, pan oedd dan lywodraeth y Rhufeiniaid, wedi ei arwyddo a'r llythyrenau E. W., ac yn dangos adnabyddiaeth a chymmydogaeth Caeo yn Nghaerfyrddin; ond er fod y dyb yn ddigon tebyg i wirionedd, nid oes gennyf un prawf mai efe oedd yr ysgrifenydd.

Yn y cyfamser bu yn ymweled a George y Pedwerydd, yr hwn y pryd hynny oedd yn Dywysog Cymru. Rhoddir yr hanes yn ngeiriau Mr. Waring:—"Pan briododd y Tywysog, cyfansoddodd y bardd fawlgerdd-briodasol (*Epithalamium*) iddo ef a'i wraig, ond nid oedd dan ysprydoliaeth proffwydol, o herwydd na fu erioed un undeb mwy anffodus. Wedi cael canniattâd i ymweled a'r tywysog, gwnaeth y paratoadau rhyfeddaf i ymddangos yn y llys, a ddyfeisiwyd gan un bardd o'r blaen. Penderfynodd i ymwisgo yn arwyddion ei gelfyddyd; gwisgodd ei ddillad goreu, rhwymodd ffedog wen o ledr newydd am ei lwynau, a chymmerth lwyarn newydd yn ei law; yn yr agwedd hynny cyflwynodd ei bennillion i'r tywysog, a chafodd dderbyniad groesawgar. Ni fu'r bardd eirioed yn awyddus am ffafr llys, ond digon tebyg iddo fwynhau gwên deyrnol ar yr achlysur hyn; cafodd gennad i gyflwyno ei *Lyric Poems* i'r Tywysog; ac y maent hwy yn arddangos anghyssondeb, yn gymmaint a'u bod yn gyflwynedig i Dywysog, tra mae brenhinoedd yn cael eu dychanu mewn amryw o'r cyfansoddiadau: ond nid yw hyn yn profi dim ond didwylldra'r awdwr, yr hwn ni chelai ei feddyliau un amser rhag ofn neb; ac y mae yn ddigon tebyg nad oedd yn hyn o beth un tueddiad i beri digofaint i'r Tywysog." Dichon fod yr hanes yn wir: ond y mae'r amseriad yn anghywir. Cymmerodd priodas George le Ebrill 8fed 1795; ond yr oedd y *Lyric Poems* wedi eu *printio* a'u cyflwyno i'r Tywysog, yn Ionawr 1af 1794; ac y mae yn ddigon tebyg mai y gân oedd "God save the King" yn yr ail gyfrol. t. d. 132.

DEDWYDD YW RHODDI YN HYTRACH NA DERBYN.—Rhoddi cyfarwyddyd i'r enbydus a'r cyfeiliornus, ac elusen i'r truenus, sydd yn cysuro y sawl a'u gwnelo cymaint a'r rhai a'u derbynio. '*Dedwydd yw rhoddi yn hytrach na derbyn.*' A phan ddel dyn hyd at y cnawyllyn blasus sydd o'r tu fewn i weithredoedd crefyddol, ni fyn fod hebddynt mwy; ac y mae dyn yn myned yn aplach i bob gwaith da wrth ei arfer. A bendith y Goruchaf a rydd ychwaneg i'r hwn a fyddo "ffyddlon ar ychydig."—C. EDWARDS.

RHESYMAU YN ERBYN ANGENRHEIDRWYDD PHILOSOPHYDDAIDD YN CAEL EU GOSOD ALLAN A'U HATTEB.—Dos. VI.

Mae dwy ffordd i symmud yr anhawsderau a daflir yn erbyn un athrawiaeth. Y flaenaf a'r fwyaf cywir ydyw, profi nad ydynt ddim yn perthyn i'r athrawiaeth mewn dadl. Yr ail yw troi y gwrthwynebiad yn ôl, a phrofi ei fod yn dal yr un mor nerthol, neu gyda mwy o wrym yn erbyn yr athrawiaeth arall, nes nad ydym yn gadael ond lle i ddewis rhwng dau anhawsdra. Gall pob gwrthwynebiad yn erbyn Angenrheidrwydd philosophyddaidd gael ei droi ymaith yn foddlonol trwy un neu'r llall o'r ddwy ffordd hyn.

GWRTHWYNEBIAD CYNTAF.

Mae'r athrawiaeth o Angenrheidrwydd yn wrthuni profadwy. Oblegid os ydyw gweithrediad bob amser wedi cael ei huno ag annogaeth, yn ol cyfreithiau symudiad, celai dyn a fyddai yn cael ei yrru gan annogaethau cydbwys i fyned mewn dwy ffordd groes i'w gilydd, ei rwymo gan angenrheidrwydd i beidio a myned un o'r ddwy ffordd, ond ar hyd canol-ffordd rhwng y ddwy; yr hyn sydd yn groes i brofiad.*

Atteb. Mae yr annogaethau mewn dadl, naill ai yn gydbwys, neu nid ydynt; os ydynt yn gydbwys, ar egwyddorion angenrheidrwydd ni all un ewyllysiad gymmeryd lle; os nad ydynt yn gydbwys yr un drymaf a ffynna.†

YR AIL WRTHWYNEBIAD.

Os ydyw yr athrawiaeth o angenrheidrwydd yn wir, mae dynolryw dan hunan-dwyll parhaus ac anocheladwy, yr hwn sydd yn ang'hyson a pherffeithderau moesol Duw; oblegid y mae pob dyn yn credu, ac ni all lai na chredu, fod ganddo rydd-did dewisiad;

Atteb, 1. Nid ydyw drychfeddyliau dynion yn gyffredin yn cyrraedd ymmhellach na rhydd-did gweithredol, neu y gallu i wneuthur fel y mynnont.‡

2. Mae golygiadau arwynebol am y natur ddynol yn tywys dynion i gredu y gallent hwy weithredu yn wahanol yn yr un amgylchiadau, ond y mae y camsyniad hwn yn hawdd i'w wella, trwy ddal sylw manol ar ymgyrch y meddwl yn ei weithredoedd ewyllysiol.

3. Mae y farn, y gallasem mewn un amgylchiadau a aethant heibio ddewis yn wahanol, yn cyfodi yn holloll oddiar ein bod yn methu cofio i'r manylrwydd eithaf yr holl annogaethau, gan y rhai yr oedd yr ewyllysiad yn cael ei thueddu, a'r sefyllfa bendant yr ydoedd y meddwl ynddo, fel nad

---

* Hyn ydyw sylwedd yr hyn a ddygodd Dr. Gregory ym mlaen mewn dwy gyfrol bwysig, gyda holl ymffrost prawf *mathematicaidd*, a chydag yspryd rhyfyg a thrahaewydd na chyfiawnheir mewn un modd yn y byd, na chan rym, na newydd-deb ei ymresymiad; a'r hyn ni wna ond ychydig o glod i'r awdwr, nag fel philosophydd nag ysgrifenydd hynaws.

† Gregory's Essay, vol. ii., sec. 9, 10. Crombie on Necessity, chap. iv.

‡ Gofynwch i'r gweithiwr beunyddiol,—A allasech chwi beidio a gweithio heddyw? Efe a ettyb, gallaswn, fi allaswn aros gartref, pe buasai chwant arnaf fi. Hynny ydyw, pe buaswn yn ewyllysio sefyll gartref, mi allaswn wneuthur hynny. Ond rhydd-did allanol ydyw hwn, yr unig rhydd-did y mae gan y gweithiwr un drychfeddwl am dano, oblegid os gofynir ym mhellach,—A allasech chwi aros gartref a'r un tueddiad genych i weithio, a'r un rheswm dros fyned at eich gwaith? Os ydyw yn deall y cwestiwn, y mae yn sier o atteb,—Na allasai beidio myned at ei waith heb *newid ei feddwl*; hynny ydyw heb gyfnewidiad naill ai yn ei dueddiad neu yn ei reswm dros fyned i weithio.

ydyw ein cydwybodolrwydd a'n ewyllys-rydd ddim yn amgen nag anghof o'r annogaeth.

4. Mae y camsyniad i'r hwn y mae sylwyr arwynebol yn syrthio mewn perthynas i rydd-did philosophyddol, yn berffeith gyffelyb i'r un y mae yr annysgedig yndda mewn perthynas i'r system bauladd, mae y ddau yn cael eu diwygio trwy sylw manylach. Nid oes un o honynt yn cael ei ganlyn gan anghyfleistra gweithrediadol pwysig; ac ni ellir ei ystyriaid yn un cyhuddiad ar garacter moesol y Duwdod, fod ei greaduriaid yn ddarostyngedig i gamsyniadau o'r fath, oni ellir profi fod gwirioneedd Duw, yn ei rwymo i wneuthur ei holl greaduriaid yn hollwybodol ac anffaeledig.

5. Mae tueddiadau drwg weithiau yn gyrru dynion i gyflawni drygau, y rhai y mae eu barn gywirach yn eu hanghymeradwyo. ac yn erbyn y rhai ar yr amser y mae yn llefain yn uchel: mae hyn yn peri hunan-gyhuddiad tufewnol, yr hwn sydd yn chwerwi pleserau drwg, ac i'r hyn y rhoddir yr enw anghymeradwyaeth, cywilydd, ac atgno cydwybod. Ond er fod y sefyllfa y meddwl hon yn profi grym a llidiawgrwydd y tueddiad drwg, nid ydyw mewn un modd yn profi y gallasai y dewisiad fod yn wahanol, tra yr ydoedd yr arferion neu y serchiadau yn para yr un. Pan y byddo dynion a fyddont wedi bod yn euog o ddrwg yn edrych yn ol ar eu gweithredoedd mewn oriau mwy pwyllog, pan y byddo nerth y nwyd wedi cael ei ddarostwng, a'r annogaethau croesion yn ymddangos yn eu holl rym, ac efallai yn cael eu gwneuthur yn fwy gan ganlyniadau drwg eu pechod a'u ffolineb, y maent yn barod i feddwl y gallent ar y pryd feddwl a gweithredu, fel y maent yn awr yn meddwl ac yn gweithredu: ond teimlad twyllodrus ydyw hwn, ac y mae yn cyfodi oddiar eu bod yn peidio rhoddi eu hunain mewn amgylchiadau yn gymmwys yr un peth. Ac y mae hefyd yn gasgeliad peryglus; oblegid, y mae yn eu harwaen hwynt i lefydd o gyffelyb berygl, yn y gobaith twyllodrus y bydd yn eu gallu, yn yr un amgylchiadau i weithredu yn wahanol, hwy a adgyflawnant y drwg yn anocheladwy, ac a gadarnhânt y tueddiad i ddrwg.

Y TRYDYDD GWRTHWYNEBIAD.

Mae yr athrawiaeth o angenrheidrwydd yn ang'hyson a phob gweithrediad priodol; y mae yn diddimu rhinwedd a drwg, teilyngdod ac annheilyngdod.

Atteb. Geiriol (verbal) yn unig ydyw y gwrthwynebiad.

Os ydyw rhyddid philosophyddaidd yn cael ei gynnwys yn ystyr y geiriau gweithrediad priodol, rhinwedd, teilyngdod, a'r cyffelyb, rhaid i angenrheidrwydd wrth gwrs fod yn anghyson a hi. Ond os wrth weithrediad priodol y meddylir, meddiant ar alluoedd rhesymol ewyllysgar a bywiog; os gelwir rhinwedd yn gwrs o weithrediad yn dyliso oddiwrth gariad at Dduw a'n cymmydog, ac yn tueddu at y dedwyddwch mwyaf yn y diwedd; ac os gelwir drygioni yn system o wyniau a chwrs o ymddygiad, yr hon sydd yn tueddu i drueni yn y diwedd, a'r cyffelyb, mae yn amlwg fod yr ystyriaethau hyn yn berffeith gyson a rhydd-did philosophyddol.*

Y PEDWARYDD GWRTHWYNEBIAD.

Mae yr athrawiaeth o angenrheidrwydd yn ang'hyson a disgyblaeth foesol, a chyfiawnder gwobrwy a chosp ddyfodol.

* Hartley on Man, p. 301, quarto.

Atteb. Mae y *case* hwn wedi ei ystyriaid eisioes (Dos. vi.) a dangoswyd fod budd gwirioneddol mewn di-gyfiaeth foesol ar egwyddorion angenrheidrwydd, a chysylltiad anwahanadwy rhwng rhinwedd a dedwyddwch, drygioni ac anedwyddwch; tra y mae yr athrawiaeth o ewyllys-rydd yn gwneuthur di-gyfiaeth yn ddifudd, ac ofer. Angenrheidrwydd ydyw yr unig dir rhesymol ar yr hwn y gellir cyfiawnhau yr athrawiaeth o wobrwy a chosp dyfodol, oblegid hi ydyw yr ystyriaeth ar yr hon y gallant ymddangos o un diben. Mae yr athrawiaeth hon gan hynny yn chwanegu at gredadwyaeth athrawiaeth yr ysgrythyr ar y pwngc, tra mae Ewyllys-rydd yn groes iddi ac yn ei dadymchwelyd. Ar y system o angenrheidrwydd yn wir y mae pob drwg yn welladwy, ac y mae hyd y nod poenau y byd i ddyfod i gael eu gweinyddu er lles y dioddefydd ei hun, yn gystal ac er rhybydd i eraill: ond y mae yr angenrheidwyr yn ystyriaid hyn yn rhagymeriad led fawr o'i thu yn lle bod yn wrthwynebiad iddi, Ac nid ydyw yr athrawiaeth hon yn groesi'r hyn y mae yr ysgrythyr yn ei ddysgu am sefyllfa olaf dynolryw, a diben olaf y goruchwyliethau dwyfol. Gwel 1 Cor. xv. 23,—28†.

(*I'w barhau*).

TRAETHAWD AR DDYBENION BYWYD.

(*Parhad o tudal* 168).

Fy amcan yw ceisio eich dwyn i sylwi ar y cam ddefnydd a'r camwri cebrydus y mae dynolryw yn gyffredin wedi ei wneyd o'r meddwl. Pan y dechrenodd Cristnogaeth ei gyrfa ogoneddus, yr oedd y byd wedi treulio ei holl nerth i geisio darostwng ei hun yn ddigon isel i gofleidio Paganiaeth. Yr oedd y prawf wedi ei wneyd dreion nas gwyddom pa faint. Yr oedd yr Aifft, Babilon, Persia, Groeg, Rhufain, a Hindostan, wedi ymdrechu. Yr oedd y naill a'r llall wedi treulio digon o nerth meddwl i adgenhedlu cenedl, wrth geisio adeiladu cyfundraeth o Baganiaeth lygredig; a phan yr adeiladid y gyfundraeth, boed ei dull a'i llun yr hyn y bo, yr oedd y genedl wedi treulio ei nerth; a'r canlyniad oedd syrthio a suddo dan effeithiau cam-ddefnyddiad y meddwl. Nid oedd yr un genedl ar wyneb yr holl ddaear, nad oedd yn soddedig dan gam-ddefnyddiad o'i galluoedd, pan cafodd yr efengyl afael arni. Yr oedd ein hynafiaid wedi eu llethu bron dan bwys y grefydd ddeiwyddol. Engraifft nodedig arall o gam-ddefnyddiad y meddwl, a gwyrni dealltwriaeth a chalon dyn, yw yr eglwys Babyddol. Y mae yn anhawdd meddwl na dychymygu y gallesid ffurfio cyfundraeth mor gyflawn ac effeithiol a hon, i dwyllo a darostwng yr enaid, y dealltwriaeth, a'r oll o ddyn.

Pa faint o feddyliau a raid fod wedi bod mewn cydweithrediad, i gau allan y goleuni Nefol, ac i gladdu y manna a fwriwyd mewn cawodydd mor helaeth! Pa fath gyfundraeth! hela holl lyfrau y byd o fewn i furiau y fynachlog; dinystrio holl ysgolion y byd, oddieithr yn y mynachlogydd hynny, y rhai a gynhelid i ddysgu i ddynion fod yn fwy ffyrnig ac ysgeler i gyflawni eu dichellion dinystriol; a thwyllo y byd cfo arddefodau a ffoleddau gweigion, trwy guddio y Beibl, a brygawthan crefydd mewn iaith anneallduy. A phan y dyrchafwyd yr holl ffieidd-dra hyn i'r goleuni yn amser y diwygiad, pa fath gywreinwaith oedd y cynllun olaf a amcanwyd i fygu y rheswm y chwiliadlys *(inquisition!)* Ymddengya fel pe bousai uffern wedi defnyddio ei holl rym dyfeisgar i ffurfio llwybr i gau y meddwl ddynol mewn tywyllwch Aiphtaidd; ac ni bu yr un wladwriaeth Babyddol erioed cfto yn ddim amgen na gwladwriaeth isel, anwybodus, ofer-goelus, a gwael Ond pa faint o feddwl a ddefnyddiwyd, ac a ddefnyddir, i gynal y fath gyfundraeth!

† Edwards on the Will, part iv., sec. 3, 4. Price and Priestley, p. 149, 155. Palmer against Priestley, sec. 7. Priestley's Reply, p. 79.

A pha fath golled i'r byd y mae wedi ei hachosi, trwy ddiffodd, mewn tragwyddol nos, y miloedd dirifedi o feddyliau gogoneddus a dinystrwyd ganddi.

A grëwyd dyn er mwyn rhyfel? A A greoedd ei Wneuthurwr ef y llygad, er mwyn iddo anelu yn well ar faes y gwaed? A gynysgaethodd efe ef â dyfais, fel y gallai ddarganfod ffyrdd i ddinystrio wrth y miloedd? Ac a blannodd efe syched yn ei enaid, fel y gallasai ei dori â gwaed dynion? Pa wyddoreg neu gelfyddyd a all ymffrostio o fwy o fanylrwydd, o fwy yn ei dysgu, yn ei dyrchafu mewn penboethni, ac yn ei chanmol mewn cân? Eisteddodd athrylith erioed wrth draed duw y rhyfel, a gwaghaodd ei holl nerth a'i gyfoeth i baratoi aberthau godidog iddo.

Nid yw y meddwl dynol erioed wedi gwneyd y fath orchestion a phan yn gweithredu ar olygfeydd gwaedlyd. A fu medr erioed yn fwy gweithgar a llwyddianus, a barddoniaeth erioed yn llosgi yn fwy tanbaid, na phan yr oedd fflamiau Caerdroia yn goleuo ei dalenau? A oes rhyw gerddoriaeth yn fwy effeithiol na hono sydd yn arwain dynion i ryfela? A gyfrenir rhyw anrhydedd mor rhwydd, ac a berchenogir mor rhad, a'r anrhydedd a ennillir trwy ymladd am ychydig oriau? Edrycher ar y dyn hwnw oedd, 'chydig yn ol, yn syndod i'r byd, yn galw i ryfel, yn byddino, ac yn gwastraffu bron holl drysorau Ewrop, am ddeuddeg neu bymtheg mlynedd.

Pa faint o luoedd o feddyliau a ddarfu iddo gasglu at y gwaith llofruddgar, sef, rhyfela; meddyliau a allasent fendithio y byd a llenyddiaeth, celfyddyd, ac ysgolion, ac âg efengyl y tangnefedd, pe na ŵyrdroisid hwy oddiwrth wir ddybenion bywyd!

Dywed un awdwr athronaidd, wrth ysgrifenu ar y matter, fel hyn—"Gadewch i ni olygu er mwyn egluro y pwngc, fod holl gynlluniau ac amcanion uchelgais, creulonder, a dichell, gwedi eu dileu oddiar ddalen hanesiaeth; ac yn gyferbyn ag enwau yr ymdrechwyr gwaedlyd, y rhai ag mae y byd wedi edrych arnynt er ys oesoedd gyda syndod, fod ymdrechion gwir Gristionogol gwedi eu hysgrifenu mor nodedig a goruchel, ac yna i ofyn pa fyth wahaniaeth a fuasai yn y golygiaoedd a gaufu y byd, a pha mor wahanol a fuasai y canlyniadau!

Buasai Alexander wedi ennill buddugoliaethau yn Persia, llawer godidocach na rhai Granicus ac Arbela; buasai wedi teithio dros yr India, fel Buchanan, ac wylo am fyd arall i'w ddwyn dan lywodraeth yr Iachawdwr; ac wedi dychwelyd i Babilon, buasai farw fel martyr, yn aberth i aiddgarwch Cristionogol. Buasai Caisar wedi gwneyd Llydaw a Phrydain yn ddeiliaid i'r ffydd, ac wedi croesi y Rubicon efo ei lengau apostolaidd, gan wneuthur y Rhufeiniaid yn rhyddion yn yr Arglwydd; buasai yn rag-redegwr i Paul, ac wedi gwneuthur haner ei waith.

Buasai Charlemagne yn Luther. Buasai Charles o Sweden yn Howard; ac yn ei ymdaith o'r Baltic i'r Eucsin, fel angel trugarog, cwympasai, pan ar ryw neges ddaionus; ac wrth gyfrif ei ddyddiau wrth y gweithredoedd a wnaethai, cawsai farw fel Mills, yn niwedd hir oes o rinwedd ac elusengarwch. Buasai Hume wedi egluro dirgelion duwinyddiaeth, ac amddiffyn, fel Edwards, y ffydd a roddwyd unwaith i'r saint.

Yr ydym yn honi nad yw yr oes hon tu ol i'r un oes a fu erioed, am wir egwyddor foesol a theimladol, a gweithredoedd dyngarol ac haelionus. Ond pa faint o hyn sydd yn y byd yn gyffredinol? Pan y mae cymylau yn ymgasglu yn y ffurfafen wladyddol, a rhyfel yn bwgwth cenedl, pa fodd y derbynir y rhag arwyddion? Pa faint sydd yn troi o'r neulldu i wylo, ac yn ymbil rhag yr euogrwydd, y gwae, a holl ddrygau a thrueni rhyfel?

Y mae y rhan fwyaf o lawer yn meddwl fod yr anrhydedd a ennillir, efallai, trwy ychydig o ymdrechion gwaedlyd, yn ddigon o dâl am y gost, y moesau, y bywydau, a'r dedwyddwch sydd yn rhaid eu haberthu wrth anturio yr oruchafiaeth. Gadewch fod y genedl yn rhuthro i ryfel, er mwyn rhyw bwynt ac enwogrwydd. Sylwch ar y trigolion, pan y maent yn ymgasglu, swp ar ol swp, mewn llawn awydd a phryder, fel pe baent mewn dysgwyliad dwys i glywed yr arwyddsain i'w galw i'r farn. Y maent yn ddysgwyl am glywed y newydd cyntaf o faes yr ymladdfa, lle y mae anrhydedd y genedl wedi ei gyngwystlo.

Nid oes yr un newydd a ddaeth erioed o'r nef, wedi peri cymaint o lawenydd

iddynt, a chlywed fod un llong wedi gorchfygu neu soddi un arall! Onid oedd yn beth rhyfedd ac anghyffredin, fod un redegfa ceffylau wedi casglu yng nghyd dros haner can mil o drigolion, a hynny yng nghanol gwlad Gristionogol? A oeddent wrth hynny yn ymddwyn mor groes i nodweddiad ac arferion y bobl yn gyffredinol, fel ag i beri rhyw argraff dwys, ar deimladau moesol y genedl? Daew genedl o ddynion yn ymddangos ar chwareufwrdd amser, ac yn cael y byd mewn tywyllwch, anwybodaeth a phechod. Treuliant eu bywyd i cnnill yr anrhydedd gwag a gollir fel tarth, ac i gasglu yr ychydig gyfoeth a gyfrenir gan ludded a phryder, ac yna ciliant ymaith. Yn y cyfamswm, nid yw y genedl yn ymdrechu nac yn gofalu am effeithio yn ddaionus ar y byd. Nid ydynt yn meddwl am adael y byd mewn gwell cyflwr na'r un y cawsant ef.

Y mae y byd er's miloedd o flynyddoedd, wedi cysgu mewn anwybodaeth, neu yn soddedig mewn tywyllwch caddugol. Y mae cenhedlaethau wedi codi, y naill ar ol y llall, ac wedi plygu ac addoli yr haul, pren, maen, ymlusgiaid, a lluaws o wahanol wrthrychau, ac yna yn myned ymaith. Ond a ydyw y gwastraff dirfawr, y golled annrhaethol hon dros amser a thragwyddoldeb, yn blino a gofidio dynolryw? A ydyw y byd yn gweithio er mwyn eu hadferiad a'u rhyddid? Na, na, nid oes ond rhan fechan hyd yn nod o'r byd Gristionogol, wedi edrych ar y trueni gyda theimlad dyngarol.

Y mae y rhan fechan yma yn gwneyd rhyw 'chydig ar eu rhan, y maent yn dwyn efengyl Duw, a chyda hi gelfyddydau gwareiddgarwch, goleuni ysgolion, gysegrant y sabboth ag effeithiau a gobeithion anfarwoldeb, i cithafoedd y ddaear. Ond pa fodd yr edrychir ar yr ymdrechion hynny gan gyffredinolrwydd y byd? Pa le y mae cyd-ymdeimlad â chenadwr y groes, pan y mae yn myned wrtho ei hunan, a'i fywyd megis yn ei law, i dywyll-leoedd y ddaear, y rhai sydd yn llawn o drigfannau trawsder? Y mae y byd yn chwerthin am ben y dyb y gellir adferyd y ddaear; ac, er fod y llewod, a'r llewpartiaid yn cael eu doli yn feunyddiol, a'r sarff wenwynig ei rhinlaw, ni chredir fod nodweddiad moesol, byth i gael ei wella. Ymddygir at gynlluniau ac amcanion y genadaeth, fel gwall-gofrwydd; ac edrychir ar y Beibl mor ddieffaith ag athroniaeth oerllyd y byd, a phregethu heb ddim nerth ond y grym araethyddol, a berthyn i'r tafod sydd yn traethu. Ond y cwestiwn yw, pa fodd y mae y bobl yn gyffredin yn penderfynu mewn agwedd mor oer a difator, nad ellir byth wella y byd, a phawb yn myned at ei alwedigaeth, fel pe na bae o un pwys na chanlyniad? Y rheswm yw, am fod dynolryw mor dra hunanol; mor hunanol meddaf, fel nad yw sefyllfa y byd sydd yn gorwedd mewn drygioni, yn eu cyffroi yn y mesur lleiaf, a bod cyffredinolrwydd y byd wedi methu, ac yn methu prif ddibenion bywyd. Nid oes dim yn wir fawr mewn dyn, ond cyn belled ag y mae wedi ei gysylltu â Duw. Yr unig ddoethineb a grybwyllir am Sereses yw, y sylw a wnaeth wrth edrych ar ei fyddin, na fyddai cymaint ag un o'r llu dirfawr fyw ym mhen cau mlynedd. Ymddengys mai rhyw dywyniad dygwyddiadol ydoedd o wir oleuni a theimlad. Gellir cynnwys hanes holl enwogion y Beibl mewn gair; hwy a rodiasant gyda Duw, ac a ufyddasant i'w ewyllys ym mhob peth; ac nid all neb o nodweddiad gwahanol, gael ei alw yn fawr gydag un math o briodoldeb.

Edrychwch ar ddynion yn unigol. Er enghraifft, fe dynir eich sylw at ryw ddyn yn un o'r trefi porthladdol, Y mae yn cerdded yn gyflym a chryneidig, yn ol ac ym mlaen, a phob mynud y mae yn edrych draw ym mhell i'r cefnfôr tywyll. Y mae yn dysgwyl i'r llong hono ddyfod i'r golwg sydd a'i fanc ef, yn chwifio ar frig yr hwyl-bren. Y mae wedi cychwyn i'r daith or ys tair blynedd, ac yn awr y mae yn dychwelyd adref, yn drwm llwythog â chyfoeth. Am yr holl amser yma, y mae wedi ei chanlyn yn ei fyfyrdod ddydd a nos; pan yr oedd yn dywyll—pan ruthrai yr ystorom—pan udai y gwynt—meddyliai am ei long; ac ni bu ei harlun o'i feddwl gymaint ac un awr gron pan yn ddeffro. Fe aeth ei holl enaid gyda hi, ac etto, yn yr holl amser, ni anfonodd gymmaint ag un weddi at yr hwn sydd yn dal y gwynt a'r tonau yn ei law: ac etto hefyd, pan y mae ei fonwes yn ymferwi o lawenydd yng ngwyneb ei dychweliad llwyddianus,

nid yw yn meddwl dim am ddyrchafu ei diolchgarwch at Dduw; am ddim gweithredoedd trugarog i'w cyflawni; nac yn ystyried dim ei fod yn gyfrifol am ei feddianau. A ydyw y fath ddyn, sydd yn byw er mwyn cyfoeth yn unig, yn amcanu at wir ddyben bywyd?

(*I'w barhau.*)

ARAETH

A DRADDODWYD AR DDYDD GWLEDD CYMDEITHAS DIWYDRWYDD, YN ARWYDD Y RHONDDA, CYMER, MAI 29ain, 1852.

RHYDDID; y fath beroriaeth felusber i glust y caethgludedig yw sain ei thannau soniarus yn canu ei hodlau peraidd mewn awyr-gylch ddifrychau, nes adnewyddu nerth bywydol holl anian? O dan ei nawdd y gall pob perchen einioes hawlio iddo ei hun gydag hyfder ei briodol rhan o adnodau bywyd, yn gyfartal i gynnyrchion ei ddiwydrwydd yn mysg lluosog drigianwyr y ddaear, mor hywel ac esmwyth ag anadlu awelon pur ei wlad. Yn y mwynhad o'i bendithion rhinweddawl, y medra gymdeithasu ag craill ar safon gyfartal o bob hawl naturiol, mewn meddwl,siarad a gweithredu, heb neb yn beiddio ei geryddu na'i wrthwynebu, ond yn unol ag egwyddorion hynaws a rhinweddawl *rhyddid*. Derbynia addysg trwy ymchwiliad cywir yn mhob canghen o wybodaeth, er budd ac adeiladaeth iddo ei hun yn gysylltiedig a'r lles cyffredin.

Yn rhydd o bob llyfetheiriau annymunol, gall egluro ffrwyth ei ymchwilion yn ddiberygl, a derbyn y budd deilliedig oddiwrthynt, heb un atalfa rhwystrawl ar ei ffordd, ynghanol prydferthion ysblenydd anian er ei gysur a'i hapusrwydd yn ei dymhor difyrus yn y byd, gan feddu bywyd yn y sefyllfa fwyaf dedwydd a boddhaol ag y byddo yn ddichonadwy, fel planhigin gwrteithiedig yn ymledu yn siriol yn mhelydr yr haul.

Sail cyfiawn rhyddid mewn cymdeithas ydyw cyfartalwch yn mraint hawlion ei holl aelodau, ac yn herwydd anmhurdeb neu ddiffyg gwybodaeth a chwaeth ddihalog yn nghyflawniad ein gweithredoedd anghenrhaid, yn cael *cyfraith* i reoleiddio pob cymdeithas. Yr hon a ymddengys ar yr olwg gyntaf, yn rhyw fath o gadwyn gaethiwus ar ryddid, ac a brofa ei hun yn un o'r llyfetheiriau mwyaf rhodresgar ac annymunol, os na fydd wedi ei adeiladu ar safon gyfartal,ac anmhleidgarwch yn ei gweinyddu. Gan hynny dylid bod yn ofalus yn netholiad pob rheol awdurdodol, rhag cadwyno rhyddid â gefynau dianghenrhaid; ond bob amser dewis y dosbarth mwyaf breingar o reolau i'n llywyddu yn unol a llesiant pawb yn ddiwahan. Mewn trefn i sylwi yn fanylach ar y teyrn anmhrisiadwy o ryddid, dichon mai nid anmhriodol a fyddai egluro ychydig, ar ddau neu dri o bethau cynnwysedig yn yn ei anianawd fel anhepgorion ei hanfodiad, ynghyd a rhoddi llaw o gymhorth i'r sylwedydd ymchwilgar, idd ei adwaen wrth ei nodau cynnwynawl, yn mha gymdeithas bynag y cenfydd arwyddion o'i lywodraeth ogoneddus.

Y nod cyntaf, yr hon hefyd yw prif sylfaen rhyddid mewn cymdeithas, ydyw *cyfartalwch* trylwyr yn mreiniau cynhenid ei holl aelodau. Nid oes dim sydd yn fwy amlwg na bod pob dyn, yn ei gyflwr cynnwynawl, yn feddianydd cyfartal o bob breiniau naturiol mewn cymdeithas; cyfuwch a neb rhyw un o'i rywiogaeth, yn unol a'i deithi a'i gymhwysderau i droi yn ei gylch priodol. Er prawf o'r gosodiad a nodwyd, pe meddyliem am dano yn ei beiriant cyfansoddol, cyfarfyddem a'r unrhyw deithi teimladol yn y naill ddyn fel y llall, yn mhob cwr o'r grendigaeth fawr. Yr un rhywogaeth o gnawd, giau a gwythi yn gyfansoddedig yn mhawb oll; ac hyd yn nod pelydr yr haul a gerwindeb oerllyd yr hin, yn gadael yr un effeithiau i'r dim ar y diystyriedig, ag a wna ar y cyfrifol o blant dynion; a'r un adnodau hefyd sydd yn anghenrheidiol er cynnal ffun bywyd yn ei amrywiol ranau, yn mhob cyfansoddiad fel ei gilydd. Y peth sydd yn feithrinol i'r naill a fydd felly yn llanw ei gymeriad daionus i'r llall; a phrinder o'r adnodau hynny a berai yr unrhyw deimlad gofidus yn mhob enaid. Trwy droseddu deddfau anian y cyfarfyddir a'r unrhyw gospedigaethau yn gyffredinol,

heb yr eithriad lleiaf yn gyferbyniol i faint neu natur y trosedd a gyflawnwyd; ni wenieithia i'r ymerawdwr rhwysgfawr a'i deyrn-wialen, mwy nag i'r cardottyn tlawd a dinodded, yn ymyl yr heol. Troseddu rhaith fawr anian yw y pwngc; nid oes wahaniaeth gan bwy; bydd ei briodol gosb yn sicr o'i ganlyn. Unwaith y collir gafael ar ael y clogwyn, fe dyn deddf pwys y naill ddyn fel y llall i lawr i'r dyfnderau; o'r tu arall, trwy ymddwyn yn gywir, yn unol a'r cyfryw ddeddfau pur a dilwgr, y sicrheir gwobr deilwng am bob daioni, yr hon a fydd yn goron o ddedwyddwch i bawb yn gyffredinol a'i teilynga, heb y rhithiant lleiaf o bleidgarwch, i beri anfoddlonrwydd yn meddwl unrhyw aelod o'r gymdeithas ddynol; yr hyn sydd yn brawf ychwanegawl o gyfartalwch anianawl pawb o deulu dyn. Gan hynny y teimlad bywiog hwnw o gyfiawnder a ddylai fod prif ysgogydd ein holl weithrediadau mewn cymdeithas; nes argraffu yn ddwfn yn mhob mynwes bwys-fawrogrwydd y ddyledswydd o wneuthur i arall fel y dymunem i arall wneuthur i ninau, ynghyd a chadw ein golwg yn barhaus ar gydraddoldeb gwreiddiol ein sefyllfa gyntefig, yn netholiad pob math o reolau ymarferol i'n llywyddu.

Yr hyn a'm arwain at yr ail nodwedd yn ngwrthddrych ein testun, trwy ba un yr adnabyddwn fod rhyddid yn teyrnasu yn llwyddianus mewn cymdeithas, sef, wrth y *gyfraith* neu y rheol arferedig yn mhlith yr aelodau, ar gyfansoddiad yr hon, i raddau helaeth, y mae dedwyddwch neu lesiant cyffredinol pob cymdeithas yn ymddibynu. Yn ngwyneb lluosogrwydd amgylchiadau amrywiol, a gyfarfyddant a ddynion fel aelodau cymdeithas ar wahanol amserau, ynghyd a'r ansicrwydd i bob amgylchiad i gyfarfod a phob dyn, yn neilldiol yn yr unrhyw nodwedd; angenrheidiol, er mwyn trefn a chyweithasrwydd parhaus, ydyw ffurfio rhyw gyfundrefn o gyfraith i rheoleiddio pob ymddygiad drygionus yn anmhleidiol rhwng y naill ddyn a'r llall; a hynny yn tarddu oddiar gariad a dyben i wneyd lles i'r troseddwr yn yr ymarferiad, yn hytrach na chosbi yn llidiog er dial, gan gofio yr hen arwyddair hwnw—"llymder i'r bai a thiriondeb i'r beius;" mor belled ac y byddo yn alluadwy, heb golli yr effaith ddymunol mewn golwg, sef, ddiwylliant cyffredinol cymdeithas, yr hyn yn sicr a ddylai fod yn brif nod y deddfau llywodraethol yn mhob gwlad. A dilys yw pa fwyaf o gyfiawnder, yn gymhlethedig a chydymdeimlad, a fyddo yn nghyfansoddiad pob cyfraith, mai goreu oll a fydd cynnyrchion llesiol ei dylanwad, yn ymarferiad bucheddol pawb o dan ei llywodraeth, ynghyd a chynydd cyffredinol mewn deall a gwybodaeth yn ngwahanol gelfyddydau y byd. Pe y byddai pob math o lafur i gael ei amddiffyn a'i noddi yn ddyladwy, gan y gallu llywodraethol, yn gyfartal idd ei deilyngdod, sicr yw y dygai oddiamgylch gynnyrchion toreithog, a fyddai yn ddigonol dâl i'r gallu hwnw a'i hamddiffynai; nid yn unig yn nghynydd *ddyfais* a *nerth*, ond hefyd yn y teimlad boddhaol hwnw sydd yn gynnwysedig yn nghynydd deddwyddwch cymdeithas, yr hwn yw dylanwad llwyddianus rhyddid ar ei amrywiol ddeiliaid. O herwydd gosoda fywyd ac yni adnewyddol yn mhob cyfansoddiad, i weithio allan, gyda nerth a medrusrwydd, gynlluniau gorchestol o ran eu ffurfiad a'u dyben; yn yr wybodaeth a'r sicrwydd hynny, y bydd i'r cyfryw lafur gael ei dal yn gyfartal idd ei werth; yr hyn sydd yn brawf diamheuol y dylai pob cyfraith fesur a phwyso pob gweithred yn gywir, gyda golwg ar gyfiawnder y gosodiad, heblaw y llwyddiant dymunol a ganlyna annogaeth deilwng o'r fath hyny.

Y mae fod ffrwd-rhediad gyffredin natur yn mhob dosbarth o honi, wrth gael ei hamddiffyn a'i noddi yn y ffordd fwyaf manteisiol i ddwyn cynnyrch toreithiog a ffrwythlon, yn ol ei gyferbynu a'r dosbarth a esgeulusir, yn gymhelliad nerthol o blaid rhinwedd y gosodiad. Y fath olygfeydd dymunol a ganfyddir wrth sylwi ar brydferthion gogoneddus anian yn eu llawn dwf, yn blaguro mor hyfryd, a phob planhigyn, fel yn cyd-ymryson am y flaenoriaeth rhinweddol o dalu teyrnged beraroglus a bywhaol, am eu hachles a'u nodded, nes ydynt yn ddigonawl braidd i swyno'r edrychydd i anghofio pob gofid, yn y mwynhad a deimla ynddo ei hun, wrth sylwi ag adfyfyrio ar weithrediadau haelfrydig rheolau doeth a chywir yn cael eu gwobrwyo a llwyddiant teilwng o honynt eu hunain. Yr hyn a ddengys fod llwyddiant gwirioneddol pob cymdeithas yn ymddibynu ar gyfaddasrwydd a chywirdeb y gyfraith a'i llywodraetha, yn ei hansawdd a'i dybenion i ddwyn oddiamgylch lesiant cyffredinol ei holl aelodau,

heb wenieithio i unrhyw anrhydedd tybiedig lle na byddo rhinwedd yn ymddangos.

Yn drydydd, -Anmhleidgarwch gweinyddiad y gyfraith a brawf, fod rhyddid yn teyrnasu gyda boddineb ar ddeiliaid dedwydd. Wrth anmhleidgarwch y deallwn weinyddiad unffurf o wobrwyon a chosbedigaethau i bob aelod fel ei gilydd, yn ol maint neu natur y *drwg* neu y *da* a gyflawnwyd ganddynt, heb wyro barn ffafriol i'r naill mwy nag i'r llall; ond barnu pob gweithred yn gywir a diduedd, yn ol y tystiolaethau egluraf ag y byddo yn ddichonadwy cael gafael ynddynt yn mhob achos. Gyda golwg ar weinyddiad cywir fel y nodwyd, y mae yn ofynol fod y cyfryw a'i gweinydda yn feddianol ar ysbryd gwrol a gonest, ac wedi eu amgaeru yn y fath fodd ag y byddo yn annichonadwy iddynt gael eu llychwino gan lwgr - wobrwyon y cyfrwysgall a'r dichellgar. Ac o'r tu arall i beidio llaesu eu dwylaw yn wasaidd a digalon, rhag ofn enllibau maleisus y cyfryw a geryddir ganddynt. Nid oes achos iddynt fod felly, yn enwedig pan yn aelodau o gymdeithas fyddo wedi ei hegwyddori i adwaen y gwahaniaeth rhwng y gwir a'r gau, llesiant pa un sydd yn cael ei hamddiffyn yn wrol ganddynt, ynghyd a'i chymeriad yn cael ei buro a'i goethi oddi wrth bob aflendid, nes ei dwyn o gyflwr da i well. Ac yn yr ystyriaeth o weinyddiad unffurf y rheolau tuag at bawb, y mae hefyd yn ddyledswydd orphwysedig ar bob aelod perthynol i gymdeithas, i bleidio ac amddiffyn eu gweinyddwyr rhag pob ymosodiad sarhaus ac enllibaidd, fyddo a thuedd ynddynt i drygu eu cymeriadau, ar yr ystyrieth, mai hwynt hwy ydyw genau agored y gymdeithas, llwyddiant cynyddol pa un a ddylai gael ei argraph priodol ar eu meddyliau. Nid wyf, wrth ddywedyd hyn, yn golygu na ddylai neb ymyraeth â threfn a dygiad rheolaidd pethau yn y blwen, ond y swyddogion yn unig; na, pell ydwyf rhag coleddu y fath ddrych-feddwl, gan yr ystyriaf hawl pob un yn gyfartal, ac nad yw swyddogion ond gweision gosodedig i wasanaethu eu brodyr, a chadw trefn yn niffyg purdeb bucheddol mewn ymarweddiad. Ac ar yr olwg fod llwyddiant neu afiwyddiant cymdeithas, yn dal cysylltiad mor agos a phob aelod fel ei gilydd, amlwg yw, y dylent gydweithredu yn mhob achos yn deilwng o'u breiniau cynhenid, gan roddi eu barn fel rheithwyr gonest yn holl benderfyniadau y gymdeithas; yr hyn yw coron auraidd rhyddid yn mhlith dynolryw. Heb y mwynderau hyn; nid yw bywyd ei hunan yn ei gyssylltiad cymdeithasol, ond o ychydig werth, a'i daith trwy'r byd ond eithaf helbulus, a thywyllwch caddugawl yn ei ordoi dan ddwylaw gormes mewn iselder a gwarth.

Gan hyny bydded ini werthfawrogi ein breiniau yn ddyladwy, trwy dalu sylw priodol i holl amgylchiadau bywyd, nes ei ddwyn i gyflwr mwy perffaith mewn cymdeithas rhinweddol, dan ddylanwad egwyddorion gogoneddus rhyddid, pa rai a'i gosoda ar binacl enwogrwydd, i fwynhau dedwyddwch, heb un gadwyn annymunol i gaethiwo ein hamcanion. Haelfrydig y cyfryw a'n dygant i feithrin cariad y naill tuag at y llall, ac i gydymddwyn yn mhob ffaeledd, nes gwneyd i lygredd wywo a diflanu o'r tir, gan ddisgleurdeb tanbeidiol rhyddid a'i ddylanwad, a chyfiawnder a heddwch yn llenwi yr holl ddaear.

GWALCHMAI GLAN RHÓNDDA.

Hanesion Cartrefol a Thramor.

CYFARFOD BLYNYDDOL UNDODIAID Y DEHEUBARTH.

CYNNALIWYD y Cyfarfod uchod eleni, yn Rhydyparc, ger Llanboydy, sir Gaerfyrddin; ar yr wythnos ganlynol i'r amser hysbysedig yn Rhifyn Mehefin. Yr achos o'r cyfnewidiad ydoedd, bod Holiad Coleg Caerfyrddin, yn annisgwyliadwy, wedi cael ei ohirio am wythnos ymhellach. Er ddarfod i'r gweinidog, Mr. T. Evans, fod yn ofalus i anfon hysbysrwydd mor gynted ag y gallai, bu cyfnewid yr amser, y mae'n debyg, yn rhwystr i rai gweinidogion ac amryw gyfeillion pellenig, fod yn bresenol. Modd bynag, nid ydym yn cofio gweled lluosocach cynnulleidfa erioed yn Rhydyparc, ar un cyfarfod cyffelyb

Prydnawn dydd Mercher (Mehefin 30), dechreuwyd y cyfarfod gan Mr. Peter Joseph, trwy ddarllen a gweddi. Pregethodd Mr. J. E. Jones, Penybont-ar-Ogwr, oddiwrth Ioan xv. 5; a Mr. James, Gellionnen, oddiwrth Rhuf. ix. 22—24.

Borau dranoeth, am 10 o'r gloch, gwelwyd fod y lluaws oedd wedi ymgynnull, yn fwy o lawer nag a ellid eu cynnwys yn y tŷ cwrdd; ac o herwydd hyny, ac am fod y tywydd hefyd yn ffafriol, cynnaliwyd y Cyfarfod yn yr awyr agored, o fewn i'r cwrt o flaen y tŷ cwrdd, lle yr oedd esgynlawr gyfleus wedi cael ei darparu i'r pregethwyr.

Mr. Thomas Thomas, Pantydefaid, a ddechreuodd yr addoliad, trwy ddarllen cyfran o'r Ysgrythyr a gweddi. Pregethodd Mr. O. Evans Cefn-coed-y-cymmer, oddiwrth Deut. xxxii. 29.

Yn y gynnadledd agored a gymmerodd le, fel arferol, ar ol y bregeth, y cadeirydd oedd Mr. Evans, gweinidog y lle. Y pwnge i'w drafod oedd, "Anhebgorion Cymmundeb Cristnogol" Llefarodd Dr. Lloyd, Caerfyrddin, a Mr. James, Gellionnen, arno, yn bur helaeth, a thebygid, er boddlonrwydd cyffredinol. Diweddwyd y Cyfarfod trwy weddi a chanu mawl.

Cytunwyd ar fod y Cyfarfod Blynyddol nesaf, i fod yn y Gellionnen, a Dr. Lloyd i bregethu.

Bydd y Cyfarfod Cwarterol nesaf yn y Nottage, ger Pothcawl, sir Forganwg, y dydd Iau cyntaf ar ol Gwyl Mihangel (Medi 30); Mr. Thomas Thomas, Pantydefaid, sydd i bregethu borau dydd Iau — testun y cynnadledd fydd, "Dyben Marwolaeth Crist." Cynnelir Cyfarfod, fel arferol, y prydnawn o'r blaen. Dichon y bydd yn gyfleus i gyfeillion pellenig i gael gwybod fod y Nottage dair milldir o'r *Pyle Station*, ar y *South Wales Railway*, a chwech milldir o Benybont.

YR ETHOLIADAU.

Y mae cyfyngdra y lle a ganiateir i ni, yn ein gorfodi i fod yn fyr iawn yn y dosran hanesiol o'r rhifyn hwn. Ymdrechir i wneud i fynu hyn o ddiffyg yn y nesaf. Y mae'r etholiadau oll yn awr wedi myned heibio. Yr ydys yn awr yn gwybod enwau a, chan mwyaf, proffesiadau y gwyr ag ydynt i ffurfio y Senedd newydd; yr hon, deallwn, sydd i ymgyfarfod tua chanol Mis Hydref Ymddengys ar y cyfan nad ydyw llais y wlad wedi rhoddi atteb boddhâol i Iarll Derby a'i blaid. Nid yw yr ymdrechiadau taer a wnaed gan y Tories, ynghyd a'r llwgr-wobrwyo a dylanwad y llywodraeth, ddim wedi bod yn ddieffaith. Y mae'r weinyddiaeth wedi ennill mwy o gefnogwyr yn Nhŷ y Cyffredin nag oedd ganddynt cyn yr Etholiad gyffredinol; ond ymddengys nad ydynt wedi ennill digon i'w cadw yn hir mewn swydd ac awdurdod. Y mae'r newyddiaduron pleidgar yn amrywio, ynghylch y modd y mae'r etholiadau wedi troi i maes, gyda golwg ar hyn. Ond y mae yn ymddangos i ni, fod y crynodeb canlynol yn bur agos i'w le. Gwelir eu bod yn cael eu rhanu yn dair plaid. *Liberals*, sef. y rhai ydynt wrthwynebol i weinyddiaeth Iarll Derby, er yn amrywio mwy neu lai yn eu plith eu hunain; Whiggiaid, Radicaliaid a'r *Irish Brigade*. *Liberal Conservatives*, ydynt weddillion o blaid Syr Robert Peel, y rhai ydynt yn gwbl-groes i'r weinyddiaeth ar y pwnge o rydd-fasnach. Ni ellir disgwyl i'r rhain i gyd-weithredu â'r *Radicals* mewn rhai pyngciau sydd o bwys. Y *Ministerialists*, ydynt y rhai sydd wedi ymrwymo i gefnogi gweinyddiaeth Iarll Derby trwy bob trwch; ac yn benderfynol, os gellir, i ailosod treth ar yd o wledydd tramor, neu ynte i gael rhyw ysgafnhâd cyfattebol i'r ffermwyr a pherchenogion tir. *Tories* brwd ydyw y rhain yn mron i gyd.—CRYNODEB.

	Liberals	Lib. Cons.	Minis.
Lloegr....	214	40	213
Cymru.....	11	6	12
Scotland..	32	5	15
Iwerddon	63	4	33
	320	55	273

Y WEINYDDIAETH.

Nid ydyw yn debygol y bydd un cyfnewid yn fuan ar y Weinyddiaeth. Fe gymmer gryn amser i'r *Opposition* gytuno ar Faenor, ac ar egwyddorion cyffredinol i weithredu arnynt; os yn wir y gellir hyny. O'r tu arall, os bydd y Weinyddiaeth i gynnyg dwyn *Protection* yn ôl, y mae'n sier y bydd raid iddynt roddi eu swyddi i fynu. Ac os y llywodraethant ar egwyddorion Rhydd-fasnach, bydd i nifer mawr o'u cefnogwyr droi eu cefnau arnynt.

DAU ENGLYN, WRTH WELED ENW CAWRDAF AR LECH YN OGOF CASTELL-CARREG-CENEN.

Cawrdaf, Fardd, ai cywirdeb—yr olwg,
'Nawr welaf i'm gwyneb;
Gyfaill, ai hwn yw'th gofeb?
Yna'n uwch nac enw neb!

Bardd y cariad! mad i'm ydyw—gwelaf
'D' enw gwiwlan heddyw;
Ei adrodd sy' ddiledryw,
Mewn ogof nid anghof yw!

D. L. MOSES.

At ein Gohebwyr.

DERBYNIWYD.—*O. Evans; J. Jones; T. Stephens; Rhudderch; Gwalchmai, a C. Ayron.*

☞ *Gorfu arnom adael allan rai cyfansoddiadau oeddent wedi eu bwriadu ar gyfer y Rhifyn hwn.*

PEN-Y-BONT, ARGRAFFWYD GAN W. LEYSHON.